

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 535 • Hydref 2022 • 50c

Melys Moes Mwy

Yn dilyn dwy flynedd o egwyl yn sgil y pandemig, fe ail gynhaliwyd y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd eleni. Ymhlith y cystadlaethau a gwobrwyon, cipiodd cwmni Môn ar Lwy'r wobwr anrhydeddus o Gynhyrchydd Bwyd a Diod Gorau'r Sioe, yn fuddugol dros 19 o wahanol gynhyrchwyr arall; y cwmni cyntaf i ennill y wobwr hon.

Fel efallai y gwyddai rhai ohonoch, Helen Holland sydd tu ôl i lyw Môn ar Lwy. Er ei bod bellach wedi ymgartrefu yng ngwlad y medra, mae gwreiddiau Helen yn nyfn yn Nyffryn Ogwen. Yn ferch i Eifion (Glo) a Eurwen, magwyd Helen yn Rhes Mostyn, Allt Gaffi. Wedi cyfnod i ffwrdd yn y coleg ar gwrs dysgu, dychwelodd yn ôl i'r Dyffryn. Buodd yn Athrawes yn Ysgol Dyffryn Ogwen am bymtheg mlynedd, ag am ugain mlynedd ym Môn cyn hynny, nes iddi ymddeol o fyd addysg yn 2015. Yng ngeiriau Helen: "genyf gyswllt cryf â Dyffryn Ogwen o hyd, mae'r ardal a'i thrigolion yn agos iawn i'n nghalon".

"Roedd derbyn y wobwr yn y Sioe Frenhinol fel y cynhyrchydd Bwyd a Diod Gorau drwy Gymru yn anrhydedd enfawr i mi ymysg yr holl gynhyrchwyr profiadol a safonol yn y sioe fawr".

Cychwynnodd y cwmni teuluol gynhyrchu hufen ia o fferm Ty'n Rallt, Trefdraeth, yn 2008; gan gychwyn a detholiad bach o flasau. Yn eu plith: Llus y Mynydd, hoff flas trigolion y Dyffryn yn ôl Helen.

Enillodd y blas hwn wobwr Gwir Flas cyntaf y cwmni yn yr un flwyddyn. Aeth y cwmni o nerth i nerth wedi hynny, nes hyd yr angen i



adeiladu hufenfa bwrpasol ar y fferm i ateb y gofyn cynyddol yn 2012. Galluogodd hyn i'r cwmni gynyddu eu hallbwn i ddarparu i fwyta, siopau a siopau fferm.

Ers 2008, datblygwyd dros 150 o wahanol flasau, yn ei sgil, enillwyd 10 gwobr Gwir Flas pellach i'r cwmni.



Beth sydd nesaf i'r cwmni blaengar yma? Nid yn unig fod ystod newydd o hufen ia Fegan wedi ei ddatblygu, mae Helen yn bwriadu adfywio ryseitiai pwdinau a sawsiau a ddatblygwyd o lyfr ryseitiau ei Nain. Pob lwc i'r cwmni yn ystod y cyfnod cyffrous hwn.

Natur o'n Cwmpas

24

Traddodiad basedwaith?

9

Gwaith Atgyweirio

4



Rhif 535
Hydref 2022

Panel Golygyddol

- Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
- Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
- Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
- Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
- Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
- Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynnian@hotmail.com
- Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk
- Catrin Wager**
(Ffôn 07930 280075)
catrinwager@yahoo.co.uk

Swyddogion

- CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
- TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
- YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com
- TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Owain Evans.

Y golygydd ym mis **Tachwedd** fydd
Trystan Pritchard,
27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**,
29 Hydref os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
Nos Iau, 17 Tachwedd,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

CLWB CYFEILLION

- Gwobrau Hydref**
£30.00 (6)
Joseph D. Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
- £20.00** (64)
Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda.
- £10.00** (104)
Wyn Bowen Harris, Talybont.
- £5.00** (156)
Sandra Williams, Stryd Goronwy, Gerlan.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa
Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru,
Bangor (01248 353604).
Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi
o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r
canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

- Gwledydd Prydain** – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Rhoddion i'r Llais
£10.00 Jessie Jones, Stryd Glanafon,
Bethesda.
£15.50 Nia a John Bagnal, Llandygai.
Diolch yn fawr

Dyddiadur y Dyffryn

- Hydref**
22 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00
24 Te Bach. Festri Carmel, Rachub.
2.30 – 4.00
26 Cyfarfod Cangen Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
26 Cymdeithas Hanes Rachub. Clwb Criced
a Bowlïo am 7.00. Gwynfor Elis yn holi
Wynne Roberts, Tanybwllch, am hanes
Rachub
29 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
31 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem
Talybont. 10.30 – 12.00

- Tachwedd**
1 Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwan. Festri
Capel Jerusalem am 7.00
5 Bore Coffi Clwb Camera a Diabetes
Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
7 Merched y Wawr Tregarth. Festri Shiloh
am 7.30. Yng nghwmni Paul Thomas.
10 Cymdeithas Capel Jerusalem. Ann Catrin
Evans. Festri am 7.00
12 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.
14 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem
Talybont. 10.30 – 12.00.
14 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Anna Pritchard. Ysbyrdoliaeth Artistig –
Crefft y Gwehydd. Festri Jerusalem. 7.00
17 Noson Gasglu a Dosbarthu'r Llais.
Cefnfaes. 6.45.
18 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd
Ogwen. 6.00.
19 Bore Coffi Apel Tracey Smith. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
19 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn
Ogwen . 10.00.
23 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd
Ogwen. 5.00 – 8.00
26 Bore Coffi Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
28 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem
Talybont. 10.30 – 12.00.
30 Cymdeithas Hanes Rachub. Clwb Criced
a Bowlïo am 7.00, Anna Pritchard yn
trafod ei gwaith gwehyddu a chlust-
nodau defaid lleol.

Oes gennych chi
ddiddordeb
i hysbysebu yn
Llais Ogwan?


Cysylltwch â
Neville Hughes
(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Llên Gwerin Bangor a'r Cyffiniau

Dywed Howard Huws nad rhywbeth sy'n perthyn i gefn gwlad ac i'r gorffennol yw Llên Gwerin, ond gall yn hawdd fynd i'w golli. Am y rheswm yma mi aeth Mr. Huws ati i gwblhau gwaith ymchwil trywadol a chyhoeddi ffrwyth ei lafur mewn cyfrol swmpus, diddorol a chyfoethog dan y teitl: 'Llên Gwerin Bangor a'r Cyffiniau'.

O fewn cloriau'r gyfrol mae wedi llwyddo i gofnodi hen draddodiadau, llysenwau, ymweliadau ysbrydion, hanesion cymeriadau lleol a llwyth o ddywediadau ffraeth cyffredinol a ddefnyddir yn yr ardal. Ewch â phrynwch y gyfrol



bwysig hon a chewch wybod am Dylwyth Teg Cororion; pam fod trigolion Bangor yn galw pentref Glasinfryn yn Mosgo a beth oedd yn digwydd yn nhafarn y 'Four Alls' ym Mhant Caerhun. Cewch wybod hefyd pam fod delw o ddyn wedi ei osod ar ben Capel Bethmacca, Glasinfryn ac adwaith y bobl leol am y delw.

Datgelir hefyd pwy gyfarfu dyn o Fethesda mewn tafarn ym Mangor un prynhawn Sadwrn a phwy neu beth

oedd y corrach a safai ar y wal ger Llyn Ogwen ar noson dywyll? Mae cannoedd o enghreifftiau eraill o fewn cloriau y llyfryn difyr hwn. Mynnwch eich copi o Siop Ogwen, a chewch oriau o bleser wrth bori drwyddo.

Annwyl Olygydd

Hoffwn ymddiheuro i'r ddau John Ffrancon, sef Davies a Griffiths am y llithriad yn y Llais mis Medi. Awdur y llythyr oedd John Ffrancon Davies nid Griffiths. Yn gywir

 **Rhys Llwyd** (Golygydd Mis Medi)

Annwyl Olygydd, Dwi'n hoff iawn o sylw Y Parchg. Judith Morris, Ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru mewn ysgrif yng nghyflwr ddiweddaraf Dr. Prydwen Elfed Owens 'Malwan bach fel fi.. yn cloddio am aur.' Dywed Judith Morris "ein bod yn byw mewn cyfnod sydd yn newid, sef cyfnod trothwyol. Hynny yw, nid yw'r hen batrwm wedi llwyr ddiflannu, ond ar yr un pryd nid yw patrymau y dyfodol yn hollol glir ychwaith! Mae fel pebaem yn bodoli mewn dau dymor a dau gyfnod."

O ystyried lleihad cyson yn niferoedd aelodau, addolwyr, Ysgolion Sul a gweithgareddau cymdeithasol eglwysi, mae'n debygol iawn y bydd yr hen batrwm yn diflannu'n raddol yn y blynyddoedd nesaf. Wrth gwrs, does neb yn gwybod hynny'n well nag addolwyr sy'n cynnal yr hen batrwm.

Ymhlith y 62 o ysgrifau yn llyfr Prydwen, mae sôn am rai eglwysi arloesol sydd eisoes wedi datblygu patrymau i'r dyfodol. Ynddo hefyd ceir nifer o enghreifftiau o weithgarwch eglwysig newydd a gwahanol ar waith mewn sawl eglwys.

 Yn gywir, **Eifion Wynne** (Rhuthun)



Gŵyl Ara Deg 2022

Dychwelodd yr "ŵyl sydd ddim yn ŵyl" Ara Deg yn ôl i Fethesda diwedd mis Awst gyda chyfres o gigs a digwyddiadau creadigol a ddechreuodd ar nos lau hyd at nos Sul. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn mewn amryw o leoliadau ar hyd y Stryd Fawr megis Neuadd Ogwen, Capel Jeriwsalem i dafarn y Fic.

Braf oedd croesawu detholiad o dalent o Gymru a cherddorion ryngwladol i ddiddanu dros wythnos gŵyl y banc yma yn y Dyffryn.

Hawlfraint lluniau: Garry Stuart

Dim ond i enwi rhai, cafwyd perfformiadau gan un o enwogion BBC Radio 6, This is The Kit; Ryley Walker o Chicago; Carwyn Ellis o Colorama a Troupe Djéliguinet o Weriniaeth Guinea.

Cyrhaeddodd un o uchafbwyntiau'r wyl ar brynghawn Sadwrn, gyda dros 300 o bobl brwdfrydig yn mynychu Gruff Rhys a'i fand (Lisa Jên, Huw V. Williams, Osian Gwynedd a Kliph Scurlock) yn ystod eu perfformiad yn Nghapel Jeriwsalem.



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen  **Plaid Cymru**



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRobertsagwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.ElinrWynWilliamsagwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinaltPuwagwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arlechwedd • cynghorydd.DafyddMeurigagwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinsonagwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

Damwain

Bu Mrs. Muriel Owen brofi anffawd wrth syrthio tra'n siopa yn y dref a thorri ei chlûn, mae'n treulio amser yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Dymunwn y gorau iddi.

Colled

Cafodd y pentref oll fraw wedi clywed am farwolaeth Yr Athro Ian Russell, yn frawychus o sydyn yn ei gartref yn Caeredin. Symudodd yno'n ddiweddar i fod yn nès at ei feibion a'u teuluoedd. Hyd y diwedd roedd yn gefnogol i'r Llais, a buodd i barhau i dderbyn copi yn fisol.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Diolchgarwch

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael i Fanc Bwyd y Gadeirlan i nodi Diolchgarwch y Cynhaeaf. Diolchwn hefyd i'r criw a addurnodd yr adeilad ar gyfer y gwasanaeth ar Hydref y 9^{fed}.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau da i Mrs. Eileen Griffiths, aelod ffyddlon yn yr eglwys, ar achlysur ei phenblwydd yn 94 mlwydd oed. Llongyfarchiadau i ddau bâr ifanc ar eu priodas, sef Josh a Harriet Gross a Paul a Leone Jones. Rydym yn falch eu bod wedi cadw'r ddolen gyswllt deuluol â'r eglwys.

Adferiad Buan

Dymunwn wellhad buan i bawb yn y

gynulleidfa sy'n cael triniaeth neu brofion meddygol ar hyn o bryd.

Bedydd

Roedd y Ficer yn hynod o brysur ar Awst yr 28^{ain} pan fedyddiodd 3 babi yn olynoll! Harriet Elizabeth, merch fach Anna a Bryn Williams, Cyffordd Llandudno a dau gefnder, Tommy Amos, mab Lola Jones a Gwyn Roberts, Bangor a Freddie Patrick Owen, mab Lacy Jones a Patrick Owen, Bangor. Bendith arnynt oll.

Teyrnged y Clychau

Canodd clychau St. Tegai deyrnged anghyffredin i'r Ddiweddar Frenhines Elizabeth II ar noswyl yr angladd gwladol. Dim ond ar achlysur marwolaeth brenin neu frenhines mae'r caniad traddodiadol yma yn digwydd. Mae'r clochyddion o dan arweiniad Martin Brown yn awyddus i ddathlu amrywiaeth o achlysuron pwysig, hanesyddol ac eglwysig er mwyn cadw'r traddodiad yn fyw. Canwyd y clychau yn ddiweddar i ddathlu ail-agor yr eglwys, bedydd a phenblwydd arbennig un o'r pentref. Bydd y clychau yn canu i dalu teyrnged ym mis Tachwedd i Ddewrion Rhyfel yr ardal a'r genedl.

Gwaith Atgyweirio

Ni chaiff mis Hydref fynd heb ddiolch i'r gweithwyr a gyflawnodd waith mor gywrain ar do ac wal ogleddol yr eglwys er mwyn dod â Cham 1 o'r atgyweirio i ben. Rydym eisoes wedi dechrau codi arian ar gyfer waith Cam 2, sef waliau yr ochr ddeheuol a chlochdŷ yr eglwys; mae angen swm sylweddol iawn!

Colledion

Trist yw cofnodi marwolaeth Yr Athro Ian

Russell yng Nghaeredin. Roedd yn Athro Ystadegau yn y Brifysgol ym Mangor ac yn fwy diweddar fel Athro ac Arweinydd Treialon Meddygol ym Mhrifysgol Abertawe. Yn ychwanegol i'w yrfa academiaidd treuliodd Ian flynyddoedd lawer fel Darllenydd Lleyg nid yn unig yn Eglwys Methodist St Ioan Bangor ond hefyd yn eglwysi Bro Ogwen. Roedd Ian yn Gristion ymroddedig gyda ffydd dwfn. Cofiwn ei gyfraniad brwdfrydig a hael i weithgareddau yr eglwys. Dywedodd y Tad John Matthews (Seland Newydd). "Roedd Ian yn aelod gweithgar o dîm Bro Ogwen a diolchaf am ei fywyd ac am ei gyfeillgarwch yn y weinidogaeth dros gyfnod hir." Cydymdeimlwn a'i weddw Daphne a'r teulu oll.

Gweddiwn hefyd dros enaid John Compton, tad yng nghyfraith ein Ficer, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd. Cydymdeimlwn ag Elizabeth, Gareth, Jessi a'r teulu oll.

Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai mis Hydref

Ar y Sul

Hydref 9^{fed} - Diolchgarwch am 11.00 y.b.
Hydref 23^{ain} - Cymun Bendigaid am 11.00 y.b.

Ar Ddydd Mercher

Bwriedir ail-ddechrau gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher y mis (sef 12^{fed} a'r 26^{ain}). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs!

Manylion Cyswllt

Mae'r eglwys ar agor! Yn dilyn sefydliad y Parch. Ddr. Gareth Lloyd fel ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248 361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn â unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.



Wal ogleddol St. Tegai wedi ei hatgyweirio, Gorffennaf 2022



O'r chwith i'r dde: Stefan, Dewi ac William Taylor, perchennog y cwmni saeri maen arbenigol "William Taylor Stonemasons" yn cael seibiant ar ôl eu gwaith.

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318) carys16@hotmail.com

Ras Hwyl Pentir

Ar ôl dwy flynedd o seibiant da oedd cynnal y ras flynyddol yn ystod yr haf. Llwyddwyd i wneud elw o £358.00 a cyflwynwyd yr arian i'r elusen 'Pobl i Bobl'. Diolch i'r rhedwyr, trefnwyr a'r gwirfoddolwyr am sicrhau llwyddiant y ras.

Cyngerdd

Bwriedir cynnal cyngerdd corawl yn Eglwys Sant Cedol unnaï nos Sul, 6^{ed} o Dachwedd neu nos Sul 13^{eg} o Dachwedd. Bydd yr union ddyddiad yn cael ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn fuan. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at cronfa Eisteddfod Genedlaethol 2023.

Eglwys St. Cedol, Pentir Cofion

Anfonwn ein cofion at Mai Williams, Cerrig yr Afon, Y Felinheli gynt o Bro Rhiwen, Rhiwlas sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gan ddymuno gwellhad buan.

Cydymdeimlad

Rydym yn cofio am y Parch. Dr. Gareth Lloyd a Mrs Elizabeth Lloyd yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Lloyd sef, Mr John Compton o St. Albans ar y 25^a o Fedi. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd fel teulu.

Te Bach

Prynhawn Mercher, 7^{fed} o Fedi cynhaliwyd ein Te Bach misol ac roedd fel arfer yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd y wobwr gyntaf yn y raffl gan Helen, sef bisgedi ac aeth yr 2^{ail} wobwr i Sharon sef siocled. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Y cyfarfod yma oedd y diwethaf cyn

misoedd y gaeaf. Byddwn yn ail gychwyn ddydd Mercher, 1^{af} o Fawrth pan fyddwn yn dathlu gŵyl ein nawddsant.

Angladd

Fore dydd Gwener y 9^{fed} o Fedi, cynhaliwyd angladd Dr Ann Illsley, Pencefn, Pentir, yn Eglwys St. Cedol gan ddilyn yn yr Amlogsgfa Bangor. Roedd y gwasanaeth dan ofalaeth y Parch. Sara Roberts gyda Sharon Williams wrth yr organ. Roedd yr Eglwys yn orlawn a hyn yn brawf o boblogrwydd a chyfeillgarwch Ann yn y gymuned.

Hamper Misol

Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd hamper mis Awst oedd Eirwen Williams, sef cynnyrch Cymreig. Rhoddwyd yr hamper gan Sharon Griffiths. Fe aeth yr ail wobwr sef potel gwin i Gwyn Jones. Enillydd hamper mis Medi oedd Sharon Williams, sef hamper o basta a pulsus. Rhoddwyd y wobwr gan Jimmy. Fe aeth yr ail wobwr sef potel gwin i Helen Bradley. Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Diolch hefyd i aelodau a chyfeillion sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r hamperau.

Gwasanaethau

Mae Gwasanaeth pob dydd Sul am 9.30yb ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Eglwys, cysylltwch â'r Parch. Dr. Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen: gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (Warden) ar gael ar 07719 918686 os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd 1969
m.hughes
a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
600633
(symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

EGLWYS WYLLT
CHWILIO AM
PERFFORMWYR AR
GYFER EIN
SIOE NADOLIG:
GANOL GAEAF
NOETHLWM
CYSYLLTWCH Â
sararoberts@cinw.org.uk
07534868127
FB:Eglwys Wyllt

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195
BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Marwolaeth

Cydymdeimlwn â Pat Fox, Ffordd y Mynydd, a theulu a chyfeillion y diweddar Michael David Fox a fu farw yn ddiweddar ar ôl cyfnod hir o salwch.

Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Llio Medi Price (Williams, Hen Barc gynt) ar ei dyrchafiad diweddar i swydd Rheolwr Achebion a Refeniw Pentref Portmeirion.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhys ac Anna o Fferm Bronydd, Llanllechid ar enedigaeth eu mab; Gwilym Prysor. Pob hwyl i'r teulu i gyd.

Cyngor

Cliriwyd y chwyn mawrion a oedd yn rhwystro cerdded ar balmant Llwyn Bleddyn o flaen Maes Bleddyn wedi i'r Cynghorydd Cymunedol Godfrey Northam gwyno wrth Cyngor Gwynedd, Cyngor Bethesda a'r Cynghorydd Sirol Paul Rowlinson.

Bu trafferthion parcio i weithwyr y cwmni adeiladu yn Cae Rhosydd. Datryswyd hyn drwy iddynt dderbyn caniatad i barcio dros dro yn y padog sydd o dan Llwyn Bedw. Ar gais y Cynghorydd Cymunedol Michael Williams a'r Cynghorydd Sirol Paul Rowlinson, gwnaed cais gan Gyngor Cymuned Bethesda i Gyngor Gwynedd am ddrychau trafnidiaeth ger Lôn Groes a Llwybr Tŷ'n Ffridd.

Carmel, Llanllechid

Mi wnaethom ni golli un o'n haelodau yn ystod y mis sef Mrs. Dilys Edwards, Ffordd Coetmor, Bethesda. Roedd ei diweddar ŵr Stan a hithau yn ffyddlon yn y gwasanaethau pan oedd eu hiechyd yn caniatáu. Mae ein cydymdeimladau gyda Gareth Llwyd a Beryl ar achlysur colli mam a mam yng nghyfraith annwyl, yn ogystal â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Mae Mrs. Keilly Tugwell-Williams, Lôn Groes wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl ar ddiwedd mis Medi. Mae hi wedi cael dychwelyd adref erbyn hyn ac rydym ni'n dymuno gwellhad buan iddi hi.

Mae Mrs. Glenys Edwards, Cwlyn, Braichmelyn wedi symud i gartref Plas Ogwen i aros yno dros gyfnod y gaeaf.

Mae Mrs. Betty Jones wedi ymgartrefu yno ers rhai misoedd erbyn hyn ac rydym ni'n anfon ein cofion annwyl at y ddwy ohonyn nhw. Mae Mr. Keith Thomas, Tan y Garth yn ei ôl yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.



Rhai o'r plant wrth giât y mynydd.

Mae Mr. Godfrey Northam yn ei gartref ac yn dal i deimlo gwendid ar ôl y driniaeth cemotherapi.

Mae aelodau Carmel i gyd yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r ddau ohonyn nhw.

Yr Ysgol Sul

Ar fore Sul braf yn ystod mis Medi, mi aethom ni am dro i fyny Caellwngrydd at giât y mynydd, gan sylwi ar enwau'r strydoedd wrth i ni gerdded. Mi aethom ni â'r defaid o waith rhai o ferched y clwb gwau hefo ni a'u rhoi nhw mewn gwahanol fannau i dynnu lluniau hefo'r plant ar bennau'r strydoedd. Defaid Caellwngrydd ydyn nhw bellach! Rydym ni


wedi tynnu lluniau o'r defaid bach lliwgar ac wedi gwneud cardiau Nadolig ar gyfer eu gwerthu gyda'r elw yn mynd tuag at waith yr Ysgol Sul. Diolch i ferched y Clwb Gwau a rhai o athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith.

- Trefn Gwasanaethau
Hydref 23^{ain}: Ein Gweinidog.
Hydref 30^{ain}: Parchg. Sara Roberts.
Tachwedd 6^{ed}: Ein Gweinidog (Cymun).
Tachwedd 13^{eg}: Oedfa.
Tachwedd 20^{fed}: Oedfa.
- Oedfaon am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur – Nos Wener am 6.30yh.

Stryd y Gwystlon

- cyfrol gyntaf Jason Morgan

Mae gwasg Y Lolfa wedi cyhoeddi cyfrol o straeon byrion, Stryd y Gwystlon, gan Jason Morgan. Un o hogia' Rachub ydi Jason ac mae'n treulio'i amser rhwng y pentref a Chaerdydd lle mae'n Uwch Gyfieithydd i Gyngor y Ddinas. Mae o hefyd yn golofnydd wythnosol i'r cylchgrawn Golwg, ac fel sy'n briodol iawn i un sy'n arddel ei fro enedigol yn frwd, 'Yr Hogyn o Rachub' ydi teitl ei golofn fywiog a diddorol – colofn sy'n mynegi barn wybodus a goleuedig ar faterion y dydd, a hynny'n ddi-flewyn-ar-dafod. Mae diddordebau Jason yn cynnwys gwleidyddiaeth, hanes a threulio amser efo'i gi. Fel chwarter Eidalwr, mae



o'n ymfalchïo yn ei wybodaeth helaeth am goginio Eidalaid. Meddai'r cyhoeddwr wrth gyflwyno'r gyfrol Stryd y Gwystlon: 'Saith stori fer gyfoes a gafaelgar, ffraeth a theimladwy', ac meddai Delyth Jewell yn y broliant: 'Llais newydd, egnïol a thrawiadol ym myd llenyddol Cymru ... Cipolwg ydy'r gyfrol hon ar gymeriadau sy'n Gymry modern. Weithiau'n deimladwy, weithiau'n ddigri – mae bywyd yn ei gyfanrwydd cnotiog, rhyfeddol yma. Cyfres o straeon trawiadol wedi'u gweu yn gelfydd – profiadau mawr bywyd wedi'u profi ar stryd fach.' Mae copïau o'r gyfrol ar werth yn Siop Ogwen.

Clwb Hanes Rachub

O'r diwedd! Daeth cyfle i ddychwelyd at hwyl y Clwb Hanes wedi cyfnod hir y clo. Roedd hi'n amlwg iawn bod yr aelodau wrth eu boddau'n cael cyfarfod unwaith eto, - yn y Clwb Criced y tro hwn, ac roedd yr ystafell fawr yn orlawn! Mr. Gari Wyn Jones oedd yno, yn sgwrsio am hanes adeiladu'r A5 - 'Y Lôn Bost' - y ffordd arloesol, 250 milltir o hyd, a adeiladwyd rhwng Llundain a Chaergybi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Penderfyniad y Llywodraeth oedd adeiladu'r ffordd er mwyn hwyluso'r cysylltiad rhwng Llundain ac Iwerddon, ac i gefnogi'r syniad o 'Brydeindod'. Mae enwau tafarndai'r cyfnod ar hyd y ffordd yn adlewyrchu tŵf Prydeindod e.e. Y Fictoria, King's Head, Waterloo, a'r Douglas - i enwi dim ond dyrnaid - a hynny ym Methesda'n unig! Roedd milwyr, gwleidyddion, a phorthmyn, wrth gwrs, yn teithio'n gyson ar hyd y ffordd. Roedd coets y 'Post' yn gallu gwneud y daith mewn 13 awr, a'r 'Goets Fawr' mewn 26 awr. Effaith adeiladu'r ffordd oedd mewnlifiad - pob math o grefftwyr, pob math o sgiliau arbenigol e.e. adeiladu, codi pontydd a chloddiau, cadw gwestai a.y.y.b. Yn wir, roedd fel pe bai Gogledd Cymru'n profi chwyldro diwydiannol ei hun! Roedd criwiau o weithwyr lleol yn dysgu sut i oresgyn anawsterau ymarferol e.e. adeiladu'r rhan rhwng Capel Curig â Nant y Benglog - tir a oedd yn gorsiog tu hwnt!

Mae cymaint o nodweddion unigryw yn bodoli hyd heddiw ar hyd yr A5, fel y cerrig milltir, hen dollbyrth, tafarndai hanesyddol, yn ogystal â hanesion am gymdeithasau diwylliedig, gwerinol, am ddynion yn gweu sanau i'w gwragedd cyn ymladd hefo criw o Albanwyr ac am fangre lle claddwyd 500 o geffylau'r Goets Fawr! Diolch yn fawr iawn, Gari Wyn! Roedd pawb wedi mwynhau'r sgwrs!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Nos Fercher, Hydref 26^{ain} yn y Clwb Criced am 7:00 pan fyddwn yn cael cyfle i 'Holi'r Hanesydd' yng nghwmni'r anhygoel Mr. Wynne Roberts, Braich Talog.

Clwb Hanes Rachub
a Llanllechid
'Holi'r Hanesydd'
Yng nghwmni
Mr. Wynne Roberts
Nos Fercher, Hydref 26^{ain}
am 7 o'r gloch
YN Y CLWB CRICED

Cyngor Cymuned Llanllechid

Nodyn Golygyddol: Mae gwerth deufis o faterion isod.

Adroddwyd fod y gwaith trwsio oedd ei angen yn Chwarel Bryn wedi ei gwblhau.

Mae trafodaethau yn dal i fynd ymlaen ynglyn â Chae Pêl-droed Talybont, gyda phethau ymarferol yn digwydd.

Rhodddwyd croeso i'r cyhoeddiad i fuddsoddi mewn estyniad i Ysgol Gynradd Llanllechid. Cytunwyd i yrru llythyr i'r Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol ac Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd i alw am ddefnyddio'r cyfle yma ar unwaith i hefyd wella mynediad i'r ysgol a'r

ddarpariaeth parcio.
Canmolodd y Cyngor, Adroddiad Cynnydd Partneriaeth Ogwen, Gorffennaf 2022.
Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar yr 8fed o Fedi a chroesawyd y Cynghorydd newydd Robin Williams i'r cyfarfod.
Cafwyd drafodaeth gyda Becca Roberts ac Abbie Edwards o Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau am rai o brosiectau sydd ar y gweill.
Adroddwyd fod Sêl Wyn di-nôd mis Orffennaf wedi bod yn hynod lwyddianus. Cynhelir ail sêl ar y 1^{af} o Hydref am 10^{yb} yn Sêl Llanllechid.

OGWEN TERRACE, BETHESDA
UN RHES, DAU DDEG
DAU O DAI



gan
Andre Lomozik

Rhan 1
Adeiladwyd tai Ogwen Terrace oddeutu 1853/4, fel rhan o ddatblygiad stad y Penrhyn i roi golygfa urddasol i deithwyr yn mynd drwy bentref Bethesda ar hyd briffordd Thomas Telford o Lundain i Gaergybi. Mae cofnod yn ymddangos yn y *North Wales Chronicle and advertiser for the Principality* dyddiedig 29^{ain} o Fedi 1855, yn nodi marwolaeth John, plentyn bach Elias ac Ellen Jones: *'On the 18^{inst}. Aged 2, John son of Mr. Elias Jones, grocer, Ogwen Terrace.'* Roedd y teulu yn byw yn rhif 15 Ogwen Terrace, felly mae yn hollol saff dweud fod y gwaith ar y rhes wedi ei gwblhau cyn y flwyddyn yma.

Dwy olygfa o Ogwen Terrace, Bethesda. Cymerwyd y llun cyntaf rywbryd cyn 1923, oherwydd nid yw'r gofeb yn ymddangos yn y llun, ac mae'r ail lun yn dyddio ar ôl 1923, pryd adeiladwyd y gofeb.
Adeiladwyd 22 o dai yn y rhes, a bwriad y gwaith yma ydi dilyn hanes y bobl oedd yn byw ynddynt, o'r adeg yr adeiladwyd hwy tua 1853/4 hyd at y flwyddyn 1911.
Bron gyferbyn â Ogwen Terrace saif Eglwys Crist, Glanogwen. Cysegrwyd yr eglwys ar y 9^{fed} o Hydref 1856, ac ym mis Rhagfyr o'r flwyddyn yma cawn gofnod o farwolaeth Jane Jones, gwraig William Jones, Ogwen Terrace, Bethesda. Dyma'r person cyntaf mae'n debyg o Res Ogwen i'w chladdu ym mynwent Glanogwen.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni
(01248) 723106

Porthaethwy
(01248) 719517

Benllech
(01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

YSGOL LLANLLECHID

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Anti Carol, a dymunwn wellhad buan iawn i chi.

Llywodraethwyr

Yn ôl ein harfer, cynhaliwyd cyfarfod o'r Llywodraethwyr ym mis Medi; dim byd yn rhyfedd yn hynny, medde chi! Nagoes siwr, ond roedd un peth yn ein taro yn rhyfedd iawn; roedd sedd Mr. Godfrey Northam yn wag. Rydym ar ddeall nad yw ei iechyd yn rhy dda ar hyn o bryd. Mae'n ddrwg gennym glywed hyn, ac fel ysgol anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mr. Northam am wellhad buan. Mae cyfraniad Mr. Northam bob tro yn arbennig iawn i'n Llywodraethwyr, ac roedd hi'n chwith hebdo yn ein cyfarfod diwethaf.

Rhoddd Arbennig

Daeth profedigaeth fawr arall i ran Anti Gillian pan fu farw ei gŵr ym mis Awst eleni. Derbyniodd Ysgol Llanllechid rodd arbennig o £500 gan y teulu i gofio am ei ddiweddar wr, Mr. Dafydd Griffiths.

Fel Ysgol, diolchwn i chi o waelod calon am eich haelioni tuag atom.



Sglodion 'Y Mabinogion'

Cafodd dosbarth Mrs. Rona Williams groeso cynnes yn siop Y Mabinogion ar y Stryd Fawr. Llauer iawn o ddiolch i Mrs. Eirian Williams a Ms. Becca Davies am fod mor arbennig hefo'n disgyblion!



Capel Celyn

Dyna brofiad oedd cael mynd eleni i Gwm Tryweryn ar ddechrau'r tymor; profiad ysgwytol, a dweud y lleiaf. Cawsom ymlwybro ar hyd yr hen ffordd oedd ym mhentref Capel Celyn, a sefyll ar safle'r capel Methodistiaid, a dynnwyd i lawr yng Ngorffennaf 1964. Hyn i gyd yn bosibl wrth gwrs, oherwydd yr haf tanbaid. Er i ni chwilio am y bont,- roedd honno'n dal i guddio dan y don, yn anffodus. Daeth y disgyblion o hyd i bob math o ddarnau o arteffactau o'r oes euraidd honno pan oedd cymuned uniaith

Gymraeg yn ffynnu yn Nghapel Celyn.

Dyma ymweliad a'n sobrodd i gyd, wrth i'n pobl ifanc geisio deall a dirnad yr hyn a ddigwyddodd yn yr oes â fu. Erbyn hyn, mae'r darnau yma o farddoniaeth gan Aled Lewis Evans ar gôf a chadw'r disgyblion, a diolch i Cai Fôn Davies am ei anfon atom. "Rhos y Gelli, Penbryn Mawr Coed y Mynach, Pont Cae Fadog Garnedd Lwyd, Hafod Fadog a Thyddyn Bychan

Roedd yn rhaid i bobl anghofio eu cartrefi, anghofio iddynt erioed fod."

Gwobr Heddwch

Cafodd y wobwr anrhydeddus hon ei chyflwyno i'n hysgol ar ddechrau'r tymor fel arwydd o'r holl waith sydd wedi ei gyflawni ar y thema heddwch drwy'r ysgol. Braf yw cael cydnabyddiaeth fel hyn! Diolch i Mrs. Rhiannon Williams am ysgrifennu ein cân heddwch, ac i Mrs. Llinos Wilson am ei rôl allweddol gyda'r gwaith.

Hel Mwyar Duon

Roedd yna gnwd a hanner o fwyar duon eleni ar y perthi, a be gewch chi well na chacan mwyar duon! Dyma'n union fu dosbarth Mrs. Bethan Jones yn ei wneud! Bu'r plant bach yn brysur yn hel mwyar duon ar Lôn Bach Odro, a chafwyd gwledd!



Tractors

Thema Blwyddyn 1 ar hyn o bryd yw tractors! Does dim byd tebyg i dractors Masey Ferguson, a phan gyrhaeddodd dau ar iard ein hysgol, roedd ein plantos wedi gwirioni! Llauer iawn o ddiolch i Mr. Dafydd Corbri Roberts a Mr. David Hughes am roi o'u hamser prin, i ddod â nhw i ddangos i'n disgyblion.

Profedigaeth

Ar Fedi'r 8^{fed}, gwta dri mis ar ôl iddi golli ei phriod John, y bu mor ofalus ohono am sawl blwyddyn, bu farw'r annwyl Beryl Ishmael, 5 Bro Emrys. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Mercher, Medi'r 21^{ain}.

Ergyd mawr yw colli dau riant mor agos i'w gilydd. Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at deulu a holl ffrindiau Beryl yn eu hiraeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Maureen a Brian Roberts, 19 Bro Emrys. Ar Awst y 31^{ain}, yn dawel yn ei chartref ym Maesgeirchen, bu farw Vera Ellen Williams, annwyl chwaer Maureen a modryb i Martin, a'i fab Josh, 4 Dôl Helyg. Gan Vera deulu mawr sy'n meddwl y byd ohoni.

Triniaeth

Cafodd Alwenna Tomos, 1 Lôn Ddŵr, glun newydd yn Ysbyty Gobowen ar ddiwedd mis Medi. Bu'n disgwyl amdani, mewn poen mawr, ers amser maith. Brysia wella, Alwenna. Gobeithio cawn dy weld yn mynd am dro o gwmpas y pentref cyn bo hir.

Mae Sheila, Millbank, Dôl Helyg, a Hugh Hughes (Hughie Post) wedi bod mewn ysbyty yng Nghilgwri (Wirral), yn cael triniaeth lwyddiannus i dynnu cataract. Peth braf yw gallu gweld lliwiau'n glir unwaith eto, a sylwi ar y byd o'u cwmpas megis o'r newydd.

Mae Idris Thomas, Dôl Helyg, yn mawr obeithio y bydd yntau'n gweld yn gliriach o ddydd Llun nesaf, Hydref y 3^{ydd}, pryd y caiff dynnu cataract yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r

meddyg wedi bod yn ei weld o yn ei gartref, ac wedi'i sicrhau ei fod yn ddigon iach i dderbyn y driniaeth. Pob lwc, Idris!

Damwain

Cafodd Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, godwm yn yr ardd, wrth iddi roi dillad ar y lein. Mae hi mor hawdd, tydi? Un cam gwag ac i lawr â ni! Drwy drugaredd, mae'r briw wedi cau'n dda iawn, a mae Rhiannon yn mynd o gwmpas ei gwaith fel arfer. Ond mae gofyn i ni, y bobl hŷn, fod mor ofalus, yn enwedig â'r Gaeaf ar ein gwartha'.

Penblwydd

Mae Sheila Chadwick, 1 Cae Bach, wedi dathlu penbwydd arbennig yn ddiwedd ar, yn ôl pob sôn, cafodd ei difetha'n racs gan y teulu!
Pob bendith, Sheila. Gobeithio y cei iechyd da, a llawer o flynyddoedd i fwynhau eu cwmni nhw i gyd.

Babi newydd

Mae Alan a Mori, 57 Bro Emrys, yn Nain a Taid unwaith eto. Ganwyd merch fach, Maddie, i Ellen ac Eddie. 'Dw i'n siwr bod Jess ac Ali wedi mopio efo'i chwaer bach. Bendith arnoch i gyd fel teulu!

Priodas

Mae Anya Casey, merch Sue a Gary, 20 Cae Gwigin, yn byw ac yn gweithio yn Llundain ers rhai blynyddoedd, ac yno y cyfarfu a'i chariad, Imran. Er hynny, adref i Dalybont, i ganol ei theulu, y daeth i briodi.
Yng Ngwesty Bae Trearddur, ar y diwrnod olaf o Fedi, y cynhaliwyd y Ddefod a'r Wlêdd. Ac ystyried y tywydd erchyll a gawsom y diwrnod hwnnw, roedd yn ffodus iawn bod y cyfan o dan yr un tô.
Erbyn i rifyn Tachwedd o'r 'Llais' weld golau dydd, gobeithio y byddwn yn medru cynnwys llun o'r briodas.

Anya ac Imran, dymunwn iechyd da i chi, a phob dedwyddwch a bendith i'r dyfodol yn eich cartref yn Llundain.

Diolch

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi dod ag arian 'Llais Ogwan' imi. Mae wedi bod yn help garw eleni. Diolch hefyd, i'r holl gwsmeriaid sydd wedi prynu calendrau. Mae mynd garw arnynt eleni.

Eglwys St Cross

Gwellhad buan
Anfonwn ddymuniadau gorau at Mrs. Muriel Owen, 5 Pentref Llandygai. Mae Muriel wedi cael codwm ym Mangor yn ddiwedd ar wedi torri ei chlun. Ar hyn o bryd (dechrau mis Hydref), mae hi'n cael gofal yn Ysbyty Gwynedd yn sgîl llawdriniaeth ar y glun. Brysiwch wella, Muriel! Edrychwn ymlaen at gael eich croesawu chi nôl adref i Landygai yn fuan iawn.

Gwasanaethau'r Sul:

Mis Hydref:
16/10 - 11.00 a.m. - Boreol Weddi
23/10 - 11.00 a.m. - Cymun yn Eglwys St Tegai, Llandegai - Archesgob Andrew John yn ymweld â phlwyf Bro Ogwen

Mis Tachwedd:
6/11 - 11.00 a.m. - Cymun
13/11 - 10.50 a.m. - Sul y Cofio - Boreol Weddi

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)

23^{ain} Hydref: Y Gweinidog.
30^{ain} Hydref: Parchg. Elwyn Richards.
06^{ed} Tachwedd: Parchg. Geraint Roberts.
13^{eg} Tachwedd: Oedfa i'w threfnu.
20^{fed} Tachwedd: Parchg. R. O. Jones.
27^{ain} Tachwedd: Y Gweinidog.
Croeso cynnes i bawb.

A oes traddodiad basgedwaith yn eich ardal chi?

Dyna oedd y cwestiwn a roddwyd i ni'n ddiwedd ar wrth i mi astudio cwrs City & Guilds mewn basgedwaith yng Ngholeg Westhope ger Craven Arms dros y flwyddyn ddiwethaf.
Uned o waith ydyw yn ein cwrs basgedwaith dwy flynedd. Y syniad ydy i holi a chwilota, ymchwilio i weld os oes math arbennig o fasged, cewyll pysgota neu eitemau tebyg eraill oedd yn nodweddiadol i ardal benodol yng Ngogledd Cymru.
Cofiw'n i'r diwydiant gwlân, amaeth, pysgota a llechi fod yn rhannau annatod ym mywydau'r Cymry yn y gorffennol ac iddynt orfod cael arteffactau ar gyfer eu

goruchwylion cyn dyfodiad plastigion i gario popeth.
A oes gennych gof plentyn o aelod o'ch teulu neu gymydog yn trin helyg neu wiail fel eu gelwir yn aml i wneud daliwr hyn neu'r llall? Os oedd, ym mha ardal ac i ba bwrpas? Lle cafwyd y wybodaeth a'r deunyddiau i'w wneud tybed? A oedd traddodiad wedi ei basio i lawr drwy'r teulu?

A oedd basgedwr yn yr ardal fel gwehydd, gof, saer a chrydd tybed?
Cais sydd gennyf am eich cymorth i weld os oes gennych atgofion, gwybodaeth neu esiamplau o fasgedi diddorol a rhai lle gellir pennu eu pwrpas a'u tarddiad, eu hardal a hyd yn oed hanesion neu luniau'r rhai fu'n ei defnyddio. Byddai cael cyfeiriad at lyfrau, erthyglau neu dystiolaeth arall am wehyddu basgedi yn ddifyr hefyd a'r bwriad ydy edrych yn bennaf ar ardaloedd Arfon, Meirionnydd, Llŷn ac Eifionnydd.

Diolch i chi ymlaen llaw a'r manylion cyswllt yw;
01286 880713 | eirian.
muse@gmail.com
Eirian Muse



YSGOL BODFEURIG

Beth yw llwyddiant?

Dyma gwestiwn mawr i chi...beth yw llwyddiant? Dyma'r cwestiwn mawr mae dosbarth Ogwen wedi bod yn ymchwilio iddo ers ddechrau'r tymor. I sbarduno eu gwaith aeth pawb ar ymweliad i gyfarfod rhywun sydd wedi llwyddo...Richard Holt yr entrepreneur sydd yn rhedeg Melin Llynnon ar Ynys Môn.

Ym Melin Llynnon cafwyd cyfle i edrych o gwmpas y felin, y tai Celtaidd a'r saffari anifeiliaid ond heb os yr uchafbwynt oedd gweld y ffatri ble maent yn cynhyrchu 'Siocled' a'r Mônuts a chyfle i flasur siocled! Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda Richard am yr hyn oedd wedi'i w ysbrydoli i fod yn entrepreneur a'i waith hyd yn hyn. Tybed oes entrepreneurs y dyfodol ymhlith disgyblion y dosbarth?



Dyffryn Gwyrdd

Dyna braf oedd cael bod yn rhan o'r Wythnos Fawr Werdd ble bu plant y dyffryn ar daith go wahanol o gwmpas Bethesda. Cafwyd cyfle i ymweld â lleoliadau amrywiol i weld rhai o'r prosiectau arbennig sy'n mynd ymlaen yma. Cafodd pawb ddysgu am y cynllun hydro, Pantri Pesda, Petha, Bws Ogwen, Beics Ogwen a llawer mwy. Roedd wir yn agoriad llygaid i'r hyn sydd ar gael ar ein stepan drws. Diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu, diwrnod diddorol dros ben.

Dosbarth Idwal

Thema dosbarth Idwal ydi 'Hapusrwydd'. Fel rhan o'r thema maent wedi bod yn edrych ar deimladau a'r corff a cafwyd diwrnod 'hapus' gyda pawb yn dod i'r ysgol mewn dillad melyn, yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog fel ioga! Erbyn hyn mae meddygfa wedi agor yn y dosbarth a pawb wrth eu boddau yn chwarae rôl meddyg, nyrs neu glaf!

Ymgynghoriad cyhoeddus premiwm treth cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut i ymateb i'r newid deddfwriaethol sy'n caniatáu i'r Cyngor gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor ymhellach.

Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Mae hyn yn gallu cynnwys eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau tymor byr sy'n ddarostyngedig i Dreth Cyngor ac sydd ddim yn gymwys am eithriadau statudol. Diffinnir eiddo wag hir dymor fel eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.

Ym Mawrth 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru y grym i awdurdodau lleol i gynyddu

uchafswm y Premiwm Treth Cyngor hyd at 300%, o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae perchnogion eiddo o'r fath yng Ngwynedd eisoes wedi bod yn talu premiwm o 100% ers 1 Ebrill 2021, a 50% rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2021.

Cyn i'r Cyngor Llawn wneud eu penderfyniad ar raddfa'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2023/24, ac ers y newid yn y deddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn awyddus i glywed barn y cyhoedd am y posibilrwydd o gynyddu'r dreth o ganran uwch na'r lefel bresennol o 100%.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn agored erbyn hyn a bydd gan y cyhoedd tan 28 Hydref i gyflwyno eu sylwadau a'u barn. Bydd canlyniadau'r ymarferiad wedyn yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a

Chabinet y Cyngor cyn i'r Cyngor Llawn ddod i benderfyniad terfynol ar 1 Rhagfyr 2022 ar lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2023/24.

Meddai'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid Cyngor Gwynedd:

"Fel Cyngor, rydym wedi bod yn codi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a thai gwag hirdymor ers 2018. Rydym yn falch o'r ffaith bod yr arian sydd wedi'i gasglu wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu cartrefi fforddiadwy ac addas i bobl leol.

"Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru mae gennym yr hawl i gynyddu'r premiwm ymhellach. Cyn i'r Cyngor Llawn ddod i benderfyniad ar 1 Rhagfyr, rydym yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus yma er mwyn casglu barn y

cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan bob Cynghorydd yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys adborth y cyhoedd ar effaith posib unrhyw newid ar gymunedau'r sir."

"Rydym felly yn annog pawb sydd â barn am y maes pwysig yma i fanteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud."

Gellir cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein neu ar bapur:

- Ewch i wefan: www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngoriadpremiwm Cofiwch fod mynediad rhad ac am ddim i'r we ar gael ar gyfrifiaduron cyhoeddus yn holl llyfrgelloedd y sir.

- Mae copïau papur ar gael yn eich llyfrgell leol neu yn Siop Gwynedd yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli.

- Gallwch hefyd ffonio 01286 682682 i ofyn am gopi papur o'r holiadur ymgynghori drwy'r post.

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Seremoni Gwobrwyo 2022

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fawrth, Medi 13eg. Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academiaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.

Yr oedd yn braf iawn croesawu rhai o benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch i rannu llwyddiannau eu cyn ddisgyblion. Y gwr gwadd eleni oedd Mr. Dylan Jones, Pennaeth Ysgol Syr Thomas Jones a chyn-ddirprwy bennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen.

Y chwe disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Issy Forte, Megan Gashe, Tesni Pari-Jones, Nel Roberts, William Roberts a Grace Wynne. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Beca Dafydd Jones, Boe-Celyn

Jones, Callum Roberts, Luned Roberts a Lilly Ward.

Cyflwynwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni i Elin Owen. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol am berfformiadau Lefel A eithriadol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru.

Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Gethin Foulkes.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Gwenno Beech, Llinos Ball, Angharad Ball, Cassie Bithell, Harri Hinchcliffe, Cadi Hughes, Gwen Puw, Cari Williams, Travis Williams, Beca Pritchard, Dafydd Jones, Effy Jones, Elin Davies.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddisgyblion a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr eleni oedd Steffan Hughes, Ela Williams, Ruby Sturrs, Mathew Bardsley, Osian Warrington, Evie Roberts, Emma Jones, Rhiannon Roberts a Joseff Drew.

Derbyniwyd gwobr Cyngor Cymuned Llanllechid am eu gwaith gyda Bagloriaeth Cymru gan Ella Basinger, Mia Evans, Betsan Griffiths, Jac Wyn Roberts, Osian Rowlands, Beca Dafydd Jones a Lilly Ward.

Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Kian Sturrs am ei waith yn gofalu am gyd-ddisgybl ac mae Ysgoloriaeth Charlotte Speddy eleni yn cael ei rhannu rhwng Awel Griffiths, Sophie Jeffreys, Seren Mai a Catherine Roberts.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Catherine Roberts, am ei amryfal lwyddiannau yn y pwll nofio. Mae'n aelod o garfan Ieuenticid Cymru



Gwobrwyo Disgyblion Blwyddyn 7



Gwobr Cyngor Cymuned Llandygai am ymdrech arbennig



Gwobr 'Seren' Blwyddyn 10



Gweithdy

Yn ddiweddar cafwyd Gweithdy GameMaker gan Technocamps gyda'r Chweched dosbarth, a buodd yn gyfle euraidd i ymarfer a datblygu sgiliau creu gemau trwy ddefnyddio'r meddalwedd GameMaker.

ac wedi cyrraedd ffeinal Pencampwriaethau Prydain.

Luned Roberts oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobwr a gyflwynir gan y Pennaeth i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion a dderbyniodd wobrwon pynciol, gwobrau Seren ac i dîm y flwyddyn sef Carfan Criced Genethod dan 15.

Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni, staff a llywodraethwyr am eu cefnogaeth iddynt.

Pêl-Droed Genethod Dan 15

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed genethod dan 15eg ar eu buddugoliaeth yn rownd 1af Cwpan Cymru. Y genethod wedi chwarae'n dda iawn wrth ennill 3-0 yn erbyn Ysgol Ardudwy. Erin Basinger, Mia Williams ac Efa Hughes yn sgorio'r goliau, a pherfformiadau cryf iawn gan Amy Ball, Georgia Lewis ac Erin Carson.

Pêl-Droed Bechgyn Dan 13

Mae'r tîm dan 13 trwodd i ail rownd Cwpan Cymru yn dilyn buddugoliaeth ar giciau o'r smotyn yn erbyn Ysgol David Hughes. Gorffennodd y gêm yn gyfartal 1-1 ar ôl i Eban Owen rhwydo i Ddyffryn Ogwen. Llwyddodd y tîm i ennill 3-2 ar giciau o'r smotyn gyda Max Williams, Mabon Stammers ac Eban Owen yn sgorio, a Jake Williams yn arbed 3 cic o'r smotyn.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwyr

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Dw i am droi'n ôl am ychydig y tro hwn i sôn am ambell sefydliad yn Rhes Ogwen na soniais amdany'n nhw o'r blaen a hynny ar sail gwybodaeth a dderbyniais oddi wrth rai o ddarllenwyr Llais Ogwan. Cysylltodd Gareth Jones Adwy'r Nant, efo fi a chanddo atgofion di-ri am fusnesau yn Rhes Ogwen. Ys gwn i faint ohonoch, fel Gareth, sy'n cofio Siop Ffrwythau Tilbury a'r mab, Mike, oedd yn bêl-droediwr medrus pan oedd yn ei ardegau ac a gafodd le yn nhîm Dinas Bangor.

Soniodd Gareth hefyd am siop Hugh Roberts a werthai amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer adeiladwyr ac yna siop Miss Williams, Milliner, oedd yn gwerthu hetiau, ac yn byw yn Ivy House (sef y tŷ go fawr y tu ôl i gefn Capel Jerusalem, ar y dde lle mae'r ffordd yn fforchio i gyfeiriad y Gerlan). Yn Rhes Ogwen, hefyd, roedd Gareth yn cofio 'siop' y Ministry of Food' a chofiaf innau'r ddwy siop cyn cyrraedd Siop Nymbar Wan, sef Siop Manweb a Siop y Bwrdd Nwy.

Ond wrth adael Rhes Ogwen, cofiaf i Gareth dd'eud iddo gael ei addysg gynradd yn Ysgol



Pen-y-bryn a gwn mai ym 1937 yr agorwyd yr ysgol honno, ar dir Ffarm Bryn Dowsi, i gymryd lle Ysgol Carneddi. Ymhen rhyw ddwy flynedd wedyn, torrodd yr Ail Ryfel Byd a dyna pryd y cafodd hynny effaith uniongyrchol ar y gymdeithas yn Nyffryn Ogwen.

Pan aethpwyd ati i geisio gwneud

trefniadau i addysgu'r faciwis oedd yn cyrraedd yr ardal, cododd anghydfod chwerv rhwng y Parchedig Thomas Arthur Jones a'i Flaenoriaid yng Nghapel Jerusalem, y Gweinidog am dderbyn y ffoaduriaid â breichiau agored tra na fynnai'r Blaenoriaid iddynt gael defnyddio'r festrioedd helaeth na chyfleusterau'r Capel ar unrhyw gyfrif.

Nid ymhelaethaf ar yr hanes hwnnw, gan fod merch y Gweinidog, y ddiweddar Marion Arthur Jones, wedi cyhoeddi manylion yr holl stori yn ei chyfanrwydd yn y gyfrol Y Diwyd Fugail a Helynt y Faciwis (Gwasg y Bwthyn, 2015, bellach allan o brint ond ar gael o'ch llyfrgell leol). Ond rhoddodd Awdurdod Addysg y Sir bob hwylustod i'r trueiniaid ac un enghraifft o hynny fu codi adeilad pwrpasol ar iard Ysgol Pen-y-bryn. Cofia Gareth mai fel Cwt y Faciwis y cyfeirid ato nes ei droi ymhen amser yn gantîn lle'r oedd y gogyddes garedig, Miss (Nellie) Edwards, a'i staff, yn bwydo cenedlaethau o blant (a'u hathrawon) am flynyddoedd.

I'w barhau

Yma i'ch helpu arbed ynni.

Yr ydym yn cefnogi pobl yn eich ardal chi i leihau eich biliau ynni ac arbed carbon. Gallwn ddarparu cynghor dros y ffôn neu yn eich cartref.

**PROSIECT
SERO NET
GWYNEDD**

Mae gennym fylbiau LED a deunyddiau atal drafftiau am ddim i'ch helpu i ddefnyddio llai o ynni.

- Cynghor a chefnogaeth i aelwydydd lleihau eu defnydd o ynni
- Egluro biliau a thariff
- Cefnogaeth gyda grantiau megis Cymru Cynnes, ECO4 a Nyth
- Gosod mesuriadau sydd yn arbed ynni (bylbiau LED a deunyddiau atal drafftiau)
- Helpu i newid gosodiadau boileri i fod yn fwy effeithlon
- Cyfeirio at asiantaethau eraill sy'n gallu cynghori a chefnogi gyda dyledion tanwydd

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chymryd rhan, cysylltwch ag:

ianto@ogwen.org
07495237680




O'r Neuadd

Mae cyfle i weld Gwaith y dyluniwr Stuart Neesham yn Neuadd Ogwen hyd at ddiwedd Hydref. Symudodd Stuart i ardal Llanllechid yn 1972 a agorodd argraffdy Enfys ar Ffordd Caernarfon ym Mangor. Dyluniodd Stuart nifer o ddelweddau gyda chysylltiad i Fethesda, yn bennaf clawr 'Afal Drwg Adda' (hunangofiant Caradog Pritchard ar gyfer Gwasg Gee). Roedd Neesham hefyd wedi creu detholiad o bosteri lliwgar ar gyfer Lle Da (clwb gweithgareddau yn Neuadd Pont Tŵr ar gyfer pobl ifanc Bethesda yn y 70au.)

Roedd Stuart Neesham hefyd yn flaenllaw wrth greu poster i ddigwyddiadau ym Mhrifysgol Bangor a mi greodd logos a chloriau i fandiau blaengar y 70au gyda chysylltiad i Fethesda, yn bennaf Yr Atgyfodiad a Brân.

Mae nifer bach o ailargraffiadau o'r poster i yma ar gael yn Neuadd Ogwen. Eu cost yw £10 yr un. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â post@neuaddogwen.com





EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023

  
#steddfod2023
www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900

Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen

Annwyl Gyd-ardalwyr Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau,

Mae pwyllgorau codi arian wedi cael eu sefydlu mewn nifer dda o ardaloedd yng Ngwynedd i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf.

Ar gyfer Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, sef ardaloedd cynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai, gosodwyd y nod o £6,000. Rydym fel pwyllgor yn anfon at fusnesau, sefydliadau a chymdeithasau lleol gydag apêl am gyfraniadau ariannol, ond mae'r llythyr hwn yn gwahodd aelwydydd i gyfrannu, gan apelio atoch fel unigolion ac fel teuluoedd.

Gwyddom fod cefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yma yn ein dyffryn, a pharch tuag at y traddodiad eisteddfodol yn benodol. Gwyddom hefyd ei bod hi'n argyfwng costau byw ac yn anodd iawn ar sawl teulu. Fodd bynnag, gobeithio'n fawr y byddwch chi, ddarllenwyr Llais Ogwan, yn barod i gyfrannu yn ôl eich modd. Bydd pob cyfraniad, bach neu fawr, yn cael ei werthfawrogi.

Rydym yn hyderus y bydd yr ymateb i'r apêl hon yn un anrhydeddus fel ein bod ni yma yn Nyffryn Ogwen yn gwneud ein rhan i sicrhau eisteddfod genedlaethol lwyddiannus yng Ngwynedd y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

Ieuan Wyn (Cadeirydd)
Rhodri Evans (Ysgrifennydd)

Cyfrannu

Bydd eich cyfraniad yn mynd i gronfa dan ofal Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen cyn i'r cyfanswm terfynol gael ei drosglwyddo i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Gellir cyfrannu mewn sawl ffordd:

- **Arian parod / siec** (yn daladwy i 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen') i Donna Watts, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE neu Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda, Gwynedd LL57 3PA.
- **Trosglwyddiad banc** i gyfrif Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen - HSBC Bangor; rhif didoli: 40-09-03; rhif y cyfrif: 51306413.

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Noson Fawr Nigel Owens

Bu disgwyl eiddgar am y noson yng nghwmni un o gyn-ddyfarnwyr rygbi enwoca'r byd ym mherson y gŵr a roddodd Gymru yn amlwg ar y map yng nghyd-destun y gêm rygbi. Er mai gwlad fechan iawn yw Cymru o ran poblogaeth a maint, mae Nigel Owens wedi sicrhau bod y byd cyfan yn gwybod amdanom. Er ei fod wedi ymddeol o'r maes dyfarnu proffesiynol erbyn hyn, mae Nigel yn dal i fod yn bersonoliaeth amlwg ar y teledu fel sylwebydd ac fel diddanwr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pleser oedd gwrandao arno'n dwrdio yn y Gymraeg ar lefel leol neu ryngwladol ond siom fawr i lawer oedd deall iddo gael ei gynghori i ddweud bron y cyfan yn yr iaith Saesneg yn Llanfair.

Roedd ganddo lu o straeon difyr a doniol am ei yrfa a bu cryn ailadrodd ar rai o'i straeon ymhlith y côr a'r gynulleidfa yn ddiweddarach. Er bod pob stori yn amrywio rhyw gymaint wrth fynd o gwmpas, fel sy'n digwydd i'r rhan fwyaf o straeon, mae pawb yn mwynhau os yw'r diweddglo'n gweithio.

Bu'r côr yn diddanu'r gynulleidfa cyn i Nigel siarad a phan gododd y gŵr gwadd i gychwyn ei anerchiad cafodd groeso mawr. Diolch i'r aelodau o Lanfair am eu holl waith yn trefnu ac yn paratoi ar gyfer y noson ac i Haydn Davies am wahodd a chroesawu



Nigel at y côr. Gweinwyd y bwffe gan Sandra Llan.

Sant Ioan, Llandudno

Does dim llawer o weithgarwch wedi bod yn Eglwys St. Ioan ers y clo ond ar nos lau 22^{ain} o Fedi bu'r côr y perfformio yno unwaith eto o flaen cynulleidfa fawr. Mae'r croeso a dderbynnir yno yn un arbennig iawn gyda'r gynulleidfa'n ddi-eithriad bron yn codi ar eu traed i gymeradwyo ar ddiwedd y perfformiad.

Trwsio Tŵr Eglwys Glanogwen

Ynghanol yr holl alwadau hyn roedd y côr wedi gwahodd Côr Merched Marsh o Huddersfield atom ar Nos Sul 25 Medi, i berfformio yn Eglwys Glanogwen. Ymddangosodd llun o'r côr hwnnw yn Llais Ogwan y mis dwythfa'. Roedd holl elw'r noson yn mynd at gronfa trwsio tŵr yr eglwys sydd angen ei



atgyweirio a'i gryfhau wedi'r holl flynyddoedd o wrthsefyll stormydd a heulwen, gwyntoedd ac oerfel. Braf yw cael adrodd bod swm parchus wedi'i godi at y gronfa a bod Côr Merched Marsh

wedi mwynhau'r profiad o gynnal cyngerdd gyda Chôr y Penrhyn. Aeth aelodau o'r ddau gôr i Glwb Criced a Bowlio Bethesda wedi'r cyngerdd i gael sgwrs dros baned o de a choffi.

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae Cylch yr Iaith wedi anfon at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd ynglŷn â lle'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir gan y sector twristiaeth o fewn y sir. Gan fod Gwynedd yn gyrchfan gwyliau i bobl o rannau eraill o Gymru, gyda chyfran dda ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, dylai'r sector twristiaeth sicrhau bod darpariaeth ar gyfer ymwelwyr yn y ddwy iaith.

Rydym yn sicr y byddwch yn cytuno â ni y dylai gwyliau yng Ngwynedd i siaradwyr Cymraeg fod yn brofiad Cymraeg yn eu hymwneud â'r gwahanol fusnesau sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr. Mae hi'n

bwysig hefyd bod ymwelwyr di-Gymraeg yn ymwybodol o bwysigrwydd ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth ddod i fwynhau'r profiad o ymweld â Gwynedd fel rhan o Gymru.

Ar hyn o bryd, mewn sawl busnes mewn sawl ardal, mae'r hyn a gynigir i ymwelwyr yn Saesneg yn unig. Mae'n wrthun ac yn warthus nad ydi Cymry Cymraeg sy'n ymweld ag Eryri a rhannau eraill o Wynedd yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith eu hunain yn eu gwlad eu hunain.

Gwyddom nad yw'r sector preifat o fewn cwmpas Safonau'r Gymraeg, ond yn sicr fe ddylid darbwyllo busnesau o werth

defnyddio'r Gymraeg, a phwyso arnynt i geisio cefnogaeth ac arweiniad swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.

Yn ein barn ni, mae angen llunio pecyn ar gyfer busnesau - pecyn a fyddai'n tanlinellu pwysigrwydd ein iaith a'n diwylliant ac yn amlygu manteision gwasanaethau dwyieithog trwy gyflogi staff sy'n medru'r Gymraeg a defnyddio gwefannau/taflenni/arwyddion dwyieithog.

Yn gywir,



Howard Huws

Cydlunydd Ymgrych Dwristiaeth Cylch yr Iaith

Nyth y Gân



Tryfan

Tryfan yw man y meini, y tir brwnt
Â'r brig yn ei noethni,
A dal yn ein hardal ni
Mae'r hynod eifr mor heini.

Llifogydd ym Mhacistan

Rhwymwyd poblogaeth dramor, a difrod
Fu'r dyfroedd i'r brodor;
Hafddydd agorodd lifddor
I li mawr oedd fel y môr.

Straeon Dewyrth Jac

(minnau'n hogyn yn niwedd y 1940au)

O'i 'stafell fach ym Mangor
Fe aeth â ni drwy'r byd
Drwy adrodd hen hanesion
Â ni wrth dân yn glyd.

Mor dda oedd fel storiwr,
A phwylllog iawn oedd ef
Yn sôn am ei fordeithiau
Mewn llong oedd fawr a chref.

Yn tynnu ar ei getyn
Mewn henaint yn ei gell
Fe aeth â ni ar grwydr
I hynod wledydd pell.

Porfa'r Mynydd

Sypiau tenau o tanodd, gŵr unig
Yr anial a'i troediodd;
O raid y defaid dyfodd,
Yn'r rhain gadd faeth yn rhodd.

Y Chwarel

Yn gynnar i'r hen glogwyni aethai
Y gweithwyr fu'n gewri;
Un â hon ei chynion hi,
A'r morthwyl fu'n rhwym wrthi.

Sychdwr

Digalon ydyw gweled tir anial
Truenus ein planed
A rhai'n ochain mewn syched
Yn ddi-raen heb ddŵr a red.

Dafydd Morris



Marchnad Ogwen

Tachwedd 12fed
9.30am - 1pm
Tachwedd 23ain
5pm - 8pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd,
Crefftâu, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L. Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd lau
Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partion o bob math - plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORIAU AGOR
D. Mercher, lau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi



Cegin Karen

Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael

 @CeginKaren Tel: 07886 560781
Eboast / Email: cegin karen@btinternet.com

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Arfbais Douglas Arms


Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR
Sul, Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher, lau a Gwener 18.00 - 23.00
Sadwrn 15.30 - 23.00

01248 602537



CROESAIR



AR DRAWS

- 1 Ar ôl mil gall asiant gofalus fod yn lles a budd ac elw (7)
5 I gribinio yng ngerddi'r de (4)
8 Yr hyn sy'n rhannu crefyddwyr Cymru (7)
9 A throi erw yng Nghilmeri i'n hatgoffa am y concwerwr yma (7)
10 Y rhai a dybiant eu hunain uwchlaw'r werin (7)
12 Amser "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" fel arfer (3,3)
15 Gan ised ei safle ni ellir ei alw'n le sêr (5)
18 Hecsgagon (6)
20 Cyfeirio at y llwybr taclus ar ôl dechrau crwydro (7)
23 Ffurfiâu a modelau papur cywrain o Siapan (7)
25 Merch enwog yr emynau yn dechrau bod yn anfodlon ac anesmwyth (7)
26 Llew, er enghraifft, pan mae'n swnllyd (4)
27 Ychydig ar ddihun, heb gysgu'n llwyr (3,4)

I LAWR

- 1 Lle glas ar ynys ogleddol i gariad Robin Hood efallai (6)
2 Yr eiliad yma yn y de (4)
3 Y rhai sy'n wirioneddol mewn eisiau (7)
4 Es a'th urddas cynnar er mwyn defnyddio dryll (5)
5 Man heb ei enwi, ond yn bodoli (5)
6 Gofalu fod y ddwy ochr yn union yr un faint (8)
7 Swnio fel pe bai Superted wedi bod ar iard y fferm (5)
11 Rhif y draffordd M hiraf ym Mhrydain, o ganolbarth Lloegr i Gaerliwelydd (4)
13 Gallant drin papur, gwallt, brethyn neu wellt yr ardd (8)
14 Ymbil carol enwog W. Rhys Nicholas : "O! tyred, O! tyred heb oedi mwy, I - - - - 'r anifail i'w gweled hwy" (4)
16 Y rhai sy'n gormesu a threisio Wcrain eleni (7)
17 Llyfr am weithredoedd yr Apostolion (5)
19 Ar gefn ceffyl neu feic (6)
21 Am rodd yw rhestr gyflawn o drefn llythrennau (5)
22 Poded hen ffasiwn (5)
24 Sant a'i enw ar ddinas a chadeirlan (4)

ATEBION CROESAIR MEDI 2022

AR DRAWS 1 Llac, 3 Deg, 5 Brys, 8 Sewin, 9 Undonog, 10 Ardudwy, 12 Opera, 13 Ras, 15 Trosi, 17 Ias, 19 Helfa, 20 Lladrata, 23 Cydweld, 24 Safle, 25 Anon, 26 Neu, 27 Nai

I LAWR 1 Llesmair, 2 Ciwed, 3 Dinod, 4 Geudy, 5 Bodloni, 6 Ymnoethi, 7 Oglâ, 11 Wyr, 14 Silidon, 15 Trachefn, 16 Sua, 18 Sianeli, 19 Hoci, 20 Llydan, 21 Dysgu, 22 Anfon

Roedd y gwallau y tro yma yn deillio o'r ddihareb "Mwya'r brys, mwya'r rhwystr" (5 Ar Draws). Cynigiwyd 'budr' a 'bedw' yn lle 'brys'. O'r herwydd roedd 'dinoethi' yn cael ei gynnig yn lle'r ateb cywir 'ymnoethi' (6 I Lawr).

Daeth atebion cywir gan y canlynol : Gill King, Mynydd Llandygai; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Doris Shaw, Bangor; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda

Ond yr un sy'n derbyn y clod a'r wobr y mis yma yw Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor LL57 1SG. Llongyfarchiadau cynnes i chi.

Atebion erbyn 4ydd Tachwedd, 2022 **fan bellaf** (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

SIOP
OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A
CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd

Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob
achlysur. Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



YSGOL ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

Croeso!

Croesawn deulu bach newydd o wynebaw yn y Meithrin ac ambell un i'r Derbyn sydd hefo ni drwy'r dydd. Mae pawb wedi setlo'n arbennig yn ein mysg ac yn falch iawn o fod yn rhan o deulu hapus Abercaseg.

Rydym hefyd yn croesawu Miss. Lisa Jones yn ei hôl wedi ei chyfnod mamolaeth. Rydym hefyd yn croesawu Miss. Emily Birch a Mr. Dafydd Roberts i dîm gweithgar ac hapus Pen-y-Bryn.

Pawb a'i deimlad...

Cafodd plant Blwyddyn 2 modd i fyw wrth wrando ar gyflwyniad hud a lledrith llesiant gan Kariad y Clown gan ddysgu bod modd newid sut ydych yn teimlo - hapus a thrist yr un pryd, a gallu helpu newid sut mae eraill yn teimlo. Aeth y plant ymlaen wedyn i greu Adnoddau hud a lledrith eu hunain a chael llawer o hwyl yn y broses!

Gwersi Cerdd gyda Mr T.

Rydym wrth ein boddau croesawu Mr. Geth Thomas (naci, dim ein

pennaeth!), neu Mr. T fel y'i gelwid; gan y plant yn wythnosol atom i gynnal sesiynau cerddoriaeth gyda phob dosbarth. Mae'r plant wrth eu boddau yn canu, rapio, chwarae offerynnau, drymiau, samba a phob math o bethau eraill o dan ei arweiniad. Edrychwn ymlaen am flwyddyn gyffrous, hwyliog a swnllyd yn ei gwmni.

Gweledigaeth yr Ysgol gyda Mr Ed Holden

Yn dilyn llwyddiant ein ffilm cyflwyno Cwricwlwm i

Gymru, y cam nesaf oedd creu gweledigaeth i'n hysgol. Wrth gwrs, fe gawsom fewnbwn pawb, ond llais y plentyn oedd yn ganolog i'n gweledigaeth. Aeth pob dosbarth ati i leisio eu barn a dweud beth oedd yn bwysig iddyn nhw yn y byd sydd ohoni. Roedd angen meddwl am ffordd gryno, hwyliog o gyflwyno'r syniadau - felly dyma wahodd Mr Ed Holden at flwyddyn 6 er mwyn cyflwyno'r weledigaeth yn gyfoes a chwl. Mae'r cyfanwaith yn werth i'w glywed a'i weld, coeliwch ni!



Ymweliad Blwyddyn 6 â Chaerdydd

Wel am dridiau anhygoel a gafodd blwyddyn 6 yng Nghaerdydd, a pha ffordd well o gychwyn blwyddyn newydd sbon na ymweld â phrifddinas Cymru. Tridiau yn llawn ymweliadau diddorol a llawer o hwyl wrth gwrs. Ein man cychwyn oedd ymweld â Phwll Mawr ym Mlaenafon, cyfle i ddysgu am fywyd ac amodau gwaith caled y glowyr yn y gorffennol. Yna bum yn y Senedd, Amgueddfa Sain



Ffagan, Stadiwm Principality, cwch cyflym ar hyd y bae, bowllo deg a'r sinema. Cafodd y plant brofiadau gwerthfawr, bythgofiadwy. Diolch o galon i'r holl staff am roi gofal mor arbennig i'r plant, ond mae'r diolch mwyaf i'r plant am ymddwyn mor arbennig â bonheddig gydol y daith gan ddod ac enw da i Ysgol Penybryn unwaith eto. Edrychwn ymlaen at daith lwyddiannus arall y flwyddyn nesaf.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.



Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

Tri Penblwydd Arbennig
Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i Siôn ac Elin Lewis, Ffordd Ffrydlas, ar achlysur dathlu eu penblwydd yn 18 oed ar 15^{fed} o Fedi.

Penblwydd hapus iawn i ti, Katie Williams, Adwy'r Nant, ar ddathlu dy benblwydd yn 21^{ain} oed ar yr 22^{ain} o Fedi. Hefyd, pob dymuniad da i ti yn y Coleg ym Mangor.



Graddio
Llongyfarchiadau mawr i Non Anwyl, LL.B. ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd yn y Gyfraith. Mae Non yn wŷres i Elwyn, Pant Glas, ac yn ferch i Sioned. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.



Cae Chwarae Newydd Pantdreiniog
Fel y mae'r rhan fwyaf ohonoch fwy na thebyg wedi sylwi, mae estyniad newydd cyffrous wedi'i osod wrth ymyl y maes chwarae gwreiddiol ym Mhant Dreiniog. Mae'r Cae Chwarae newydd yn cynnwys cwrs rhwystrau wedi ei wneud allan o bren ac yn gweddu fewn i'r ardal. Ariannir y prosiect hwn gan Gyngor Cymuned Bethesda, a dyma lun o rai o'r Cynghorwyr oedd yn rhan o'r prosiect.

Priodas Arian
Llongyfarchiadau i Carl a Gillian Walker, 24 Glanogwen, ar ddathlu eu priodas arian ar y 6^{ed} o Fedi. Priodwyd y ddau yng Nghapel Bethmacca, Glasinfryn.

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llinos Hughes, Ystâd Coetmor, wrth iddi

ddechrau ar ei swydd yn Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â John a Gwen Davies, Tanysgafell, a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli nith yn Much-Wenlock. Dim ond 53 oed oedd Fiona Anne Roberts.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r

ddiweddar Janet Jones, Caergybi, a fu farw yn ei chartref, 15 Ty'n Parc ar 5 Medi.

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellhad buan i'r cyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn. Dyma'r rhai y clywodd y Llais amdanynt: Jean Thomas,

Yr Eglwys Unedig

Yr Ysgol Sul
Braf yw gweld gweithgaredd yr Ysgol Sul wedi ail-ddechrau, a'r plant yn amlwg yn mwynhau, a diolch i Menna Wyn a'r criw am eu brwdfrydedd. Mae croeso cynnes iawn yn disgwyl aelodau newydd cofiwch!

Profedigaeth
Daeth colled fawr i ni yma yn Jerusalem gyda marwolaeth Mr. William Hughes, Tregarth – un a fu'n ffyddlon dros ben i'r achos, a gŵr bonheddig o'r iawn ryw. Bydd mwy o fanylion yn rhifyn nesaf y Llais, ond yn y cyfamser estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu oll.

Cofion
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein

cofion at y rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi, ac yn fregus oherwydd salwch. Mae amryw mewn cartrefi gofal hefyd, ac yr un yw ein dymuniadau gorau iddynt hwythau.

Galw Gweinidog
Erbyn y bydd Llais Ogwan wedi dod o'r wasg, byddwn fel aelodau wedi pleidleisio parthed galw Mrs. Nerys Griffiths yn weinidog arnom. Bydd pedair eglwys yr ofalaeth newydd, sydd yn cynnwys Jerusalem, Cysegr Bethel, Caeathro, a Llanrug wedi bwrw eu pleidleisiau erbyn canol mis Hydref, a chawn wybod y canlyniad yn fuan iawn.

Cyhoeddiadau'r Sul
Hydref 16^{ed}: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (10 a 5) Cymun yn yr hwyr.

Hydref 23^{ain}: Mr. Richard Morris Jones (10)
Hydref 30^{ain}: Mr. Richard Lloyd Jones (10 a 5)
Tachwedd 6^{ed}: Y Parchedig Geraint Roberts (10 a 5)
Tachwedd 13^{ain}: Y Parchedig Brian Wright (10 a 5)
Tachwedd 20^{fed}: Mrs. Nerys Griffiths (10 a 5)
Tachwedd 27^{ain}: Mr. Dennis Davies (10 a 5)
Rhagfyr 4^{ydd}: Mr. Gwilym Williams (10)

Bore Coffi McMillan
Fore Gwener, Medi 30, cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus er budd yr elusen uchod. Daeth nifer arbennig o dda i'n cefnogi, a hynny ar ddiwrnod stormus iawn! Gwnaed elw sylweddol o £500, ac mae'n diolch yn



fawr i Minnie am drefnu'r digwyddiad, ac i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd.

Tymor Diolchgarwch
Tra'n datgan ein diolch eleni eto, gawn ni gofio am y rhai sydd

Cynllun Arfaethedig CCTV Stryd Fawr Bethesda

Mae Cyngor Cymuned Bethesda gyda Chyngor Gwynedd yn ystyried gosod camerâu Teledu Cylch Cyfyng Man Cyhoeddus parhaol ar hyd y Stryd Fawr. Cynhaliwyd Noson Agored yng Nghanolfan Cefnfaes ar yr 20fed o Fedi i ymgynghori gyda'r cyhoedd am y cynllun. Bydd y camerâu hyn yn cael eu hariannu gan Gyngor Cymuned Bethesda.

Os hoffech weld y cynlluniau arfaethedig neu roi eich sylwadau i'r ymgynghoriad hwn, yna cysylltwch â Chlerc y Cyngor ar cyngorbethesda@ogwen.org neu 01248 602131.



Abercaseg; Rene Parry, Maes y Garnedd; Noreen Jones, Adwy'r Nant; Ann Williams, Stryd Fawr; Dafydd Morris, Ffordd Abercaseg.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Eurwen Morris, Garnedd Uchaf, sydd yn Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

Gorffwysfan

Cafwyd bore coffi ardderchog ar fore Sadwrn, 17^{eg} o Fedi, yng Nghanolfan Cenfaes. Roedd yr elw dros £200.00. Diolch i bawb a fu'n helpu, ac am yr holl nwyddau ar gyfer y raffl a'r bwrdd gwerthu. Trefnwyd y wibdaith nesaf ar gyfer dydd Mercher, 26^{ain} o Hydref, pan fyddwn yn mynd i Bwllheli a Phorthmadog, gan gychwyn ger y Gofeb ym Methesda am 9.00yb.

Marwolaethau

Brian Wyn Parry
Ar 1af Medi, yn ei gartref yn Stryd Brynteg, bu farw Brian Wyn Parry yn 80 mlwydd oed. Cymar annwyl i Diana a phriod i'r ddiweddar Margaret. Tad arbennig i Helen, Naomi, David a'r diweddar Gareth. Taid hoffus i'r plant a brawd annwyl i Pat ac yn frawd yng nghyfraith ac ewythr. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 16^{eg} o Fedi, yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor. Y Parchg. Sara Roberts oedd yn gwasanaethu a Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn a chwi fel teulu i gyd.

Gwyneth Morris
Yn dawel yng Nghartref Plas Ogwen, ar 3^{ydd} o Fedi, bu farw Mrs. Gwyneth Morris, gynt o Fryntirion, yn 92 mlwydd oed. Priod annwyl

y diweddar Mr. Len Morris, mam a mam yng nghyfraith i Alan ac Esther, a Glenda ac Alwyn. Nain hoffus i Richard, Gareth, Lowri, Andrew a Sioned, a hen nain i Gethin a Mali. Roedd Gwyneth bob amser yn siriol a pharod ei gwên. Bu'n cydweithio â'r ddiweddar Phyllis Evans mewn siop trin gwallt ar Stryd Fawr, Bethesda am nifer o flynyddoedd. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 15^{fed} o Fedi, dan arweiniad y Parchg. Sara Roberts. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Anwen Williams
Yn Ysbyty Gwynedd ar 5^{ed} o Fedi, bu farw Mrs. Anwen Williams, Arafa Don, Stryd Fawr, yn 80 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. Bert Williams, mam annwyl i Rhian, Bryn ac Owena, a mam yng nghyfraith i Audrey a Jonty, a nain hoffus. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth a mynwent Dinas Bangor ar ddydd Mawrth, 20^{fed} o Fedi. Gwasanaethwyd gan y Parchg. Sara Roberts.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Dilys Lloyd Edwards
Ar 22^{ain} o Fedi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Dilys Lloyd Edwards, Ffordd Coetmor, yn 90 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Stanley Edwards, a mam a mam yng nghyfraith annwyl a gofalus Gareth a Beryl. Chwaer a chwaer yng nghyfraith Helen a Vaughan (Prestatyn), a modryb Rhian, Mike a Nia, a hen fodryb i Daniel. Person tawel a hoffus oedd Mrs. Edwards, a'n barod am sgwrs gyda phawb. Bu hi a'i diweddar ŵr yn aelodau ffyddlon o Glwb Gorffwysfan, ac yn mwynhau bob gwibdaith a chinio Nadolig. Bu'n aelod selog o Gapel Bethesda ac yna Capel Carmel, Llanllechid.
Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Mawrth, 4^{ydd} o Hydref, yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor, gyda'i gweinidog, y Parchg. John Pritchard yn gwasanaethu a Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.



Gig Gruff Rhys

Fel yr adroddwyd fis diwethaf, cynhaliwyd gig arbennig yn y capel, wedi'i threfnu gan Dilwyn Llwyd ar ran Neuadd Ogwen. 'Rydym yn gwerthfawrogi'r defnydd a wna Dilwyn o adeiladau'r capel, a dywed yntau ei fod wrth ei fodd yn cydweithio gyda'r swyddogion. Isod gwelir llun o Gruff yn diddori'r gynulleidfa fawr a ddaeth i wrando ar un o sêr mwyaf y byd cerddoriaeth fodern.

Llun drwy garedigrwydd Garry Stuart

yn fyr iawn o'n breintiau ni - y rhai sydd yn ddigartref, a'r rhai sydd yn wynebu gaeaf llwm oherwydd yr argyfwng ynni: Rho imi nerth i wneud fy rhan i gario baich fy mrawd, i weini'n dirion ar y gwan A chynorthwyo'r tlawd.

Ymweliad

Cawsom y fraint yn ddiweddar o groesawu cwmni ffilmio o Siapan, fel rhan o weithgareddau yn ymwneud â'r Ardal Treftadaeth UNESCO Byd-eang yr ydym yn awr yn rhan ohono.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

CAR CARE CENTRE

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com

LLAIS OGWAN 19

Eglwys Crist, Glanogwen

Profedigaeth

Cydymdeimlwn yn fawr a Mrs. Elizabeth Lloyd, gwraig ein ficer, Dr. Gareth Lloyd, ar ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr. John Compton, yn St Alban's. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Liz, Peter, Naomi a'r teulu i gyd yn eu galar.

Cyngerdd – Diolch!

Cynhaliwyd y cyngerdd ar nos Sadwrn, Medi 24^{ain}, yn yr eglwys, a braf oedd gweld cynulleidfa deilwng wedi dod i fwynhau.

Roedd y ddau gôr werth eu clywed, a'r gerddoriaeth yn llenwi'r adeilad, yn atgoffa dyn o'r dyddiau a fu.

Diolch o galon i bwyllgor Côr Meibion y Penrhyn, ynghyd â'r arweinydd, Owain Arwel Davies, a'r cyfeilydd, Frances Davies, am gytuno i gynnal y cyngerdd, ac hefyd i Gôr Merched Marsh o Huddersfield, gyda'u harweinydd, Ian Abbott, a'u cyfeilydd, Kim Kaye am gymryd rhan ar wahoddiad y Côr Meibion.

Diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd, gyda'r trefnu, gyda rhoddion, gyda'r paratoi bwyd ar gyfer yr ymwelwyr, a phawb a ddaeth yn gynulleidfa ar y noson wrth gwrs.

Diolch i Siop Ogwen a Gwasg Ffrancon am eu cefnogaeth, ac i'r Clwb Criced a Bowlio am eu croeso a'u haelioni arferol.

Braf cael cofnodi i ni godi dros £1300 o elw – diolch o galon i bawb.

Enillwyr Clwb Cant mis Medi:

£50: (131) – Gwyndaf Ll. Owen
£20: (8) – Olwen Hills
£20: (47) – Carys Thomas

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb. Mae'n flwyddyn ers sefydlu'r Clwb Cant, a'r aelodaeth wedi codi dros £1,000 i gronfa'r Apel. Diolch i bawb am eu

cefnogaeth, a gobeithio bod pawb yn awyddus i ddal ati gyda'u rhifau. Dyma'r incwm mwyaf o ddigon i'r Apêl.

Y ffordd ddelfrydol fyddai talu:
1. trwy arian parod neu
2. trwy drosglwyddiad banc i gyfrif HSBC, 40-09-03, 02066637 gan roi enw a rhif ffôn fel cyswllt yn y cyfeirnod – a chofio anfon neges i llinoso@yahoo.com i ddweud eich bod wedi talu.

Amlenni Rhodd

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – rhain sy'n talu'r costau a'r biliau Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Bore Coffi

Cofiwch am y Bore Coffi sydd i'w gynnal yng Nghanolfan y Cefnfaes ar fore Sadwrn, Hydref 29^{ain} – Diwrnod Ffair Llan – hawdd ei gofio!

Cofiwn yn ein gweddïau am nifer o'n haelodau sydd yn wael neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd yn hiraethu am anwyliaid; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

Gwasanaethau

– Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.
– Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.

Croeso cynnes fel arfer i bawb.

Manylion Cyswllt

Gellir cysylltu â'r Ficer, y Parch. Ddoctor Gareth Llwyd, ar 07847 125225 neu'r Deon Gwlad, y Parch. Tracy Jones ar 01248 361876 ynglyn â unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Cofiwch fod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Marwolaeth

Bu angladd Mrs. Margaret Jones, Fferm Tan y Weirglodd yn yr Amlosgfa ar y 31^{eg} Awst gyda'r Parch Ronald Williams yn gwasanaethu gyda Mrs. Deilwen Hughes wrth yr organ. Roedd Elwyn wedi ysgrifennu teyrnged i Margaret gyda Emlyn Thomas, ei frawd yng nghyfraith yn darllen y deyrnged gan sôn am ei magwraeth yn Nyffryn Ogwen a'i gwaith gyda cwmni'r Co-Op, a'r pleser a gafodd yng nghwmni'r plant a'u plant hwythau hefyd.

Cwta wythnos cyn yr angladd derbyniodd Elwyn benillion "You never said goodbye". Cafwyd cyfieithiad gan Elin Angharad ac fe'u darllenwyd gan Meurig Williams, brawd yng hyfraith arall. Derbynwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at elusenau lleol.

Gadael heb gyfle i ffarwelio
Pam wnes 'di adael mor sydyn?

Pam wnes 'di ddiffodd y fflam?
Gadael heb gyfle i ffarwelio?
Duw'n unig a wyddai pam.

Dy golli bob eiliad a wnaif i
A wylo dagrau'n lli
Pe gallai cariad yn unig dy achub
Byddet yma'n fy mreichiau i.

Dyma ragflas o'r penillion.
Diolch am y cyfieithiad o'r Saesneg ac anhysbys yw awdur y darn gwreiddiol.

Arholiadau

Llongyfarchiadau i bobl ifanc y pentref am eu llwyddiant gyda arholiadau Lefel A a TGAU dros yr haf. Pob dymuniad da i chi wrth ddychwelyd nôl i'r ysgol, i wneud lefel A, i ddechrau yn y Brifysgol, cychwyn prentisiaeth neu swydd.

Mae Gwen Williams wedi mynd i Salford, Cassie Dodd i Lerpwl, Seren Jones i Fangor, Steffan Jones wedi derbyn

Newyddion o Neuadd Rhiwlas

CEGIN NEWYDD SBON DANLLI

Mae cegin Neuadd Bentref Rhiwlas bellach wedi cael ei hailwampio. Bu cegin y Neuadd ar gau fisoedd Gorffennaf ac Awst tra bu'r cegin yn cael ei diweddarau ac fe'i hail-agorwyd ddechrau

Medi.
Yn dilyn cais llwyddianus am grant o "Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi" Llywodraeth Cymru fe ail-luniwyd y gegin, gafodd ei gosod yn wreiddiol yn ôl yn 2002 pan adeiladwyd y Neuadd bresennol.



prentisiaeth a Sophie Tewson a Mia Owen wedi cymryd amser allan.

Pob hwyl i chi gyd a diolch i Eluned Williams, Carreg y Gath am y wybodaeth yma.

Noel Williams

Gwybodaeth arall y cefais gan Eluned yw mae'n debyg fod amryw ohonoch yn adnabod y person a fu farw ym Mro Dysynni.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf yr 16^{ed}, bu farw Noel Williams, Llwyn y Gog, Tywyn.

Annwyl briod Ann. Brodor o'r Dyffryn oedd Noel a wedi'w fagu yn Gwern Gof uchaf. Roedd Noel yn un o saith o blant i Gruffydd a Lydia Williams. Wedi iddo adael Ysgol Ramadeg Llanrwst aeth ymlaen i hyfforddi fel athro yn y Coleg Normal ac yna cafodd swyddi dysgu yn y Trallwng, Berriw a Clatter.

Penodwyd Noel yn Bennaeth Ysgol Gynradd Aberdyfi yn 1992 hyd at ei ymdeoliad yn 2002.

Er iddo symud o'r ardal i fyw ar gyfer ei waith a byw ym Mro Dysynni, roedd mynyddoedd ac ardal Dyffryn Ogwen yn agos iawn at ei galon, a byddai'n

dychwelyd i gerdded yn yr ardal mor aml a phosib gan ddod a'i blant a'i wyrion gyda fo. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch yng nghapel Ebeneser, Tywyn o dan arweiniad Y Parch. Iwan Llywelyn. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen

Yn ystod y seremomi yma derbyniodd Osian, Bron y Waun dair gwobr bynciol yn y Gymraeg, Hanes a Bagloriaeth Cymru. Dylan Jones y cyn-ddirprwy sydd bellach yn Brifathro Ysgol Uwchradd Amlwch oedd yn cyflwyno'r gwobrau. Pob hwyl i ti Osian yn y 6^{ed} dosbarth.

Rhaglen Dei Tomos

Yn ystod y mis bu Cynrig Hughes yn sgwrsio ar raglen Dei Tomos ar Radio Cymru i rannu stori Richard Lewis Owen o Rhiwlas, a ymfudodd i Patagonia.

Bu Richard yn rhedeg y dafarn Coach and Horses a'r Swyddfa Bost cyn ymfudo i Batagonia, mae'n debyg mai twymyn yr aur yn Chubut oedd wedi cydio dychymyg Richard ac yn 57

mlwydd oed hwyliodd y teulu oll: Margaret ei wraig, Robert, 21 oed, Margaret, 19 oed, Dilys 16 oed ac Olivia, 13 oed ar y llong Orita yn 1911.

Yn 1912 dychwelodd Richard i'r pentref gan ymgartrefu yn fferm Carreg y Gath Isaf. Cafodd gweddill y teulu amser caled iawn yn y Wladfa ac erbyn 1927 dim ond Dilys oedd ar ôl. Thrwy hap a damwain bron, sefydlodd fusnes a ddaeth yn llewyrchus iawn a mae Tŷ Te Plas y Coed yn dal i fodoli, ei enwogrwydd ar y sail iddo fod y tŷ te cyntaf yn y Wladfa.

Heddiw mae Tŷ Te Plas y Coed yn nwylo un o ddisgynyddion Dilys, Ana Chiabrando Rees.

Mae Ana yn rhugl yn y Gymraeg a hi a enillodd y Gadair Eisteddfod Gadeiriol Trefelin yn 2019 gyda cherdd dan y teitl 'Hen Nain Rhiwlas'. Am stori dda!

Priodi

Ym Mis Awst bu priodas Ifan, mab leuan a Donna Hughes, gyda Elena. Cynhaliwyd y briodas ym Mhlas Rhianfa ar Ynys Môn. Mae Ifan bellach yn athro yn Ysgol Pant y Rhedyn, Llanfairfechan ac Elena yn dysgu yn Ysgol Bodedern.

Maent yn byw yng Nghaernarfon. Pob dymuniad da i'r pâr.

Ym mis Awst hefyd bu priodas Siôn, mab Mari a Ken, Uwch Mynydd, Caeau Gleision, â Ffion o'r Felinheli. Cynhaliwyd y briodas yn Ngwesty'r Deganwy Quays. Mae Siôn yn cynnal gwersi Martial Arts yn Llandudno a Phorthaethwy, a mae'n debyg fod amryw ohonoch yn cofio'r gwersi ffitrwydd yn y Neuadd a gynhaliwyd gan Ffion, bellach mae hi'n hyfforddi ym Mhlas Ffrancon. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llanrug - ein dymuniadau gorau i chwithau hefyd.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Angharad. Bu farw tad Angharad, Mr. Ronald Parry yn 95 mlwydd oed. Bu farw yng nghartref Y Rhos ym Malltraeth, Ynys Môn. Brodor o Sir Fflint ydoedd a roedd yn gyn-brifathro Ysgol Gymraeg Yr Wyddgrug.

Dymuniadau Gorau

Y mae ambell un o'r pentref heb fod yn dda yn ddiweddar, cofion atoch a chymerwch ofal.

Mae'r gegin rŵan yn llawer mwy hwylus i ddefnyddwyr y Neuadd, gydag ynys ganolog, cypyrddau, lloriau, teils newydd, gwell sinc a bwrdd diferu, ac unedau trydanol newydd: tecell, oergell, ac ati.

Mae Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn awyddus iawn i estyn ein diolchiadau a'n gwerthfawrogiad i bawb a wnaeth cymaint i

sicrhau llwyddiant y prosiect hwn: i'r gweithwyr proffesiynol boed yn osodwyr cegin, plymars, trydanwyr, gosodwyr lloriau; ac yn arbennig i'r gwirfoddolwyr hynny fu'n gweithio mor galed i wagio'r hen gegin a chael gwared â'r hen gypyrddau a'r unedau.

Mae ein dyled yn fawr i Dylan a Carl am fod mor barod i

ymgyrryd â llawer o'r gwaith yn ddi-dâl.

Edrychwn ymlaen yn awr i weld defnyddwyr y Neuadd yn gwerthfawrogi'r gegin ar ei newydd wedd. Mae lluniau o'r gegin i'w gweld ar wefan y Neuadd, sef: www.neuaddrhiwlas.cymru

PROSIECT LLUNIO TEILS CROCHENWAITH

Ym mis Tachwedd bydd crochenydd – Lyn Gallagher o Grochendy Penmon – yn cynnal gweithdai ar lunio teils clai yn y pentref. Bydd tri gweithdy yn y Neuadd ac un i blant yn yr ysgol. Y bwriad yw creu set o deils i lunio mosaic am hanes Rhiwlas fydd yn cael ei osod yn y Neuadd.

Gan fod grant "Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol" wedi ei dderbyn oddi wrth Mantell Gwynedd i dalu am y gwersi hyn, ni fydd cost o gwbl i rhai hynny sy'n mynychu'r gweithdai. Mae enghreifftiau o waith Lyn i'w gweld yma: <https://bit.ly/3Reoljj>

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Elfyn: 07786554890, neu e-bost i: y.neuadd.rhiwlas@gmail.com

PWYLLGOR RHEOLI NEWYDD

Yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Neuadd gynhaliwyd fis Medi sefydlwyd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd am flwyddyn arall. Mae manylion aelodau'r pwyllgor i'w gweld ar y wefan: www.neuaddrhiwlas.cymru/pwyllgor/

Mae rhai a fu'n aelodau o'r pwyllgor ers sawl blwyddyn wedi ymddiswyddo eleni, ac mae'r pwyllgor presennol a phentrefwyr Rhiwlas yn ddiolchgar iawn i Hefin a Rhian am eu blynyddoedd o wasanaeth i'r Neuadd; a hefyd i Graham am fod yn gymaint o help tra bu'r system wresogi'n cael ei hadnewyddu'r llynedd.

Diolchwn yn arbennig i Iona. Wedi chwarter canrif fel ysgrifennydd di-flino i Bwyllgor y Neuadd, mae hi wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi eleni. Diolch o galon i chi i gyd.



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CYFARFOD
BLYNYDDOL
Llais Ogwan

Nos Fawrth,
1 Tachwedd
am 7.00yh

yn Festri Capel Jerusalem
Croeso cynnes i bawb.

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi

Clwb Camera
Dyffryn Ogwen
a Diabetes Cymru

Sadwrn, 5 Tachwedd

10.00 – 12.00
Stondinau Amrywiol
Croeso i bawb
Mynediad £1.00

CYMDEITHAS HANES
DYFFRYN OGWEN

(Darlith wyneb yn wyneb a rhithiol drwy gyfrwng Zoom)

Anna Pritchard -
Ysbrydoliaeth Artistig - Crefft y Gwehydd
7.00yh nos Lun Tachwedd 14eg 2022

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun, Hydref 10fed,
ar yr hwyrfa os gwelwch yn dda

Tal Aelodaeth
£10.00 i rai mewn gwaith | £5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00
Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen'
drwy: BACS: 40-16-02 41386212 Neu drwy sic.

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi

Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd

Sadwrn, 22 Hydref

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi

Cronfa Apêl
Tracey Smith

Sadwrn, 19 Tachwedd

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Festri Carmel
Llanllechid

TE BACH

Pnawn Llun,
24 Hydref

2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Eglwys Unedig
Bethesda,

Y GYMDEITHAS

yng nghwmni'r gemydd

Ann Catrin Evans

yn Festri Jerusalem

Nos Iau, 10 Tachwedd

am 7.00 o'r gloch

Cynhelir
Clwb Coffi
Talybont

yn
Festri Bethlehem

Ar foreau Llun

Hydref 31

Tachwedd 14 a 28

Dewch am banad a sgwrs

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi

EGLWYS CRIST
GLANOGWEN

Sadwrn, 29 Hydref

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00
Elw at gynnal yr Eglwys



Marchnad
Ogwen

RYDAN NI YN ÔL!

Mae'r Farchnad wedi ail gychwyn ar
yr 2il Sadwrn yn fisol unwaith eto -
yn ôl yn Neuadd Ogwen. Mae rhai
stondinau newydd gan gynnwys y
Llyfrgell Pethau. Cyfle i chi fenthg
pob math o bethau - yn hytrach na
gorfod eu prynu.

Bydd dwy Farchnad ym mis
Tachwedd - bore Sadwrn, y 12fed a
nos Fercher, Tachwedd 23ain.

Mae gwybodaeth i'w gael ar
Facebook, Instagram ac ar ein gwefan:
www.marchnadogwen.co.uk

Glasiinfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966) mairpenybryn@gmail.com

Cartref Newydd

Croeso cynnes iawn i'r ardal i Cai Llwyd
a'i gyfar Cat, a'u tair geneth i Ty'n Pwll,
Caerhun. Mae Cai yn dysgu yn Ysgol
Maesincla Caernarfon. Pob hapusrwydd i
chwi yn eich cartref newydd. Braf iawn yw
cael croesawu teulu ifanc Cymraeg i'r ardal.

Cylch Glasiinfryn

Agorodd y Cadeirydd, Mair Griffiths y cyfarfod
ar 14^{ed} o Fedi drwy groesawu aelodau hen a
newydd. Mynegodd ein tristwch at farwolaeth
sydyn Ann Illsley, Pencefn, Cadeirydd ac
aelod selog iawn o'r Cylch. Cawsom funud o
dawlwlch i gofio Ann.

Daeth Menna Gilbert o Benrhosgarnedd
atom gyda'i chasgliad o ddilladau o'r can
mlynedd diwethaf, rhai yr oedd hi ei hun
wedi brynu a'u gwisgo ar gyfer gwaith ac
amser hamdden. Yr oedd yn brynhawn

hyfryd ac fe'i fwynhawyd, gan dod a llawer
o atgofion yn ôl o beth oeddem yn wisgo ac
yn ffasiwn yn y ganrif ddiwethaf. Diolchwyd
i Menna gan Jocelyn. Darparwyd paned gan
Marian a Glenys.

Edrychwn ymlaen at sgwrs gan
Mark Roberts o Adran Gwyddorau Môr,
Porthaethwy ar 9^{fed} o Hydref am 2yp, yna ar
9^{fed} o Dachwedd croesawn Angharad Huws
atom i arddangos ei gwaith llaw. Mae croeso
cynnes i aelodau newydd atom yn y Ganolfan
am 2yp ar yr ail ddydd Mercher o'r mis.

Canolfan Glasiinfryn

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol ar fore
Sadwrn 24^{ain} o Fedi yn y Ganolfan, gyda
Chyfarfod o'r Pwyllgor yn dilyn. Mae'r
Ganolfan wedi cael amryw welliannau yn
ystod y flwyddyn diwethaf, gan gynnwys
gwresogyddion effeithiol a diwastraff.

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

Nos Wener, 18 Tachwedd 2022
am 6.00yh (Drysau ar agor am 5.45yh)
yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd

Mynediad: £4.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)

Sadwrn, 19 Tachwedd 2022
Dechrau am 10.00 yb
yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft

Mynediad: £3.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)

Canolfan Cefnfaes Gyrfa Chwist

Hydref 25
Tachwedd
8, 22 a 29

am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru – 'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'

Dennu Ymddiriedolwyr Newydd

Eleni mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn dathlu 140 mlynedd o ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n colli eu golwg, mae'r elusen yn gobeithio recriwtio sawl Cyfarwyddwr gwirfoddol newydd i ymuno â'u tîm ymroddedig.

Mae'r elusen, sydd wedi'i leoli ym Mangor yn darparu llawer o wasanaethau i blant ac oedolion sydd wedi colli eu golwg. Ymhlith y gwasanaethau y maent yn eu darparu mae; canolfan adnoddau, asesiadau a thechnoleg arbenigol, clybiau a grwpiau, recordio llyfrau lafar a llawer mwy o wasanaethau hanfodol eraill.

Dyma gyfle gwych i ymuno â grŵp bach o Gyfarwyddwyr/Mmddiriedolwyr ymroddedig sy'n cyfarfod unwaith y mis naill ai wyneb-yn-wyneb

neu drwy gyfrwng gyfarfod rithiol.

Maent yn chwilio am unigolion sy'n barod i roi rhywfaint o'u harbenigedd a'u hamser i helpu i arwain a gwerthuso gwasanaethau'r elusen yn ogystal a datblygu gwasanaethau a chyfleoedd newydd ac arloesol.

Maent yn arbennig o awyddus i recriwtio rhai sydd â rhwydweithiau personol a phroffesiynol cryf a sgiliau ym maes trefniadaeth, cyllid, y gyfraith, busnes. Byddai profiad o weithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol hefyd o fantais. Byddant yn croesawu ymholiadau gan rai sydd â phrofiad o wirfoddoli ar bwyllgorau neu gan bobl sydd am gymryd rhan am y tro cyntaf.

Ar ôl gadael ei rôl yn ddiweddar dywedodd cyn-cyfarwyddwr:

"Mwynheais fy nghyfnod fel cyfarwyddwr gyda'r

Gymdeithas yn fawr, wrth weithio'n agos gyda'r staff a'r gwirfoddolwyr i wneud penderfyniadau roeddem yn gallu eu rhoi ar waith yn gyflym, roedd yn hynod o braf cael gweithio gydag elusen leol a gweld newid go iawn yn digwydd bob mis er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau i bobl ddall a rhannol ddall. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â rhywfaint o amser sbâr i ymweld â'r elusen yn 325 Stryd Fawr, Bangor, i weld dros eu hunain y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud"

Os oes gennych ddiddordeb, neu os ydych yn gwybod am rywun a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Gyfarwyddwr, ffoniwch Steven Thomas, Prif Weithredwr, ar 01248 353604.

Am fwy o wybodaeth am yr elusen gweler www.nwsb.org.uk

Gosodwyd drysau a rhai ffenestri newydd drwy garedigrwydd Cyngor Cymuned Pentir, yn ogystal â chysylltu'r carthffosiaeth i'r brif bibell yn y pentref. Mae Pwyllgor Rheoli y Ganolfan yn ddiolchgar iawn i Gyngor Pentir am ariannu'r gwaith hwn.

Diolchwyd i Ann Williams am ei gwaith trylwyr a chydwybodol yn glanhau ac edrych ar ôl y Ganolfan yn enwedig yn ystod y cyfnod clô.

Rhodddwyd diolch arbennig i Marred Glynn Jones sydd yn ymddeol o'i swydd fel Ysgrifennydd wedi blynyddoedd o deyrngarwch, a 'roedd pawb yn falch o glywed ei bod am aros ar y Pwyllgor!

Etholwyd Shelly a Jo yn gyd Ysgrifenyddion. Diolchwyd hefyd i Mair am ei gwaith fel Trysorydd dros y blynyddoedd.

Cytunwyd i godi ffi llogi y Ganolfan i £10 y sesiwn, h.y. bore, prawn neu gyda'r nos gan fod biliau tanwydd wedi codi. Ychydig o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r Ganolfan

ar hyn o bryd a buasai'n braf pe bai mwy yn manteisio ar y cyfleusterau sydd ar y stepan drws! Diolchodd y Cadeirydd, Vivek Thuppil i bawb fynychu y cyfarfod.

Bingo
Mae'r sesiynau Bingo am ail ddechrau! Bydd y cyfarfod ar yr 21ain o Hydref am 7yh. Derbynnir unrhyw nwyddau tuag at y gwobrau a'r tombola yn ddiolchgar iawn gan Ann Williams ym Mro Infryn a Mair Griffiths yn Waen Wen. Dewch yn llw, cewch noson i fwynhau!

Mynwentydd
Wedi ymweld â dwy mynwent yn yr ardal yn ddiweddar ac wedi rhyfeddu at gyflwr gwych y ddwy! Mae Mynwent Coetmor ar ei newydd wedd wedi cael torri a chlirio y clawdd ar gwair wedi'w dorri yn dwt. Yr un yw hanes Mynwent y Plwyf ym Mhentir sydd yn cael ei chadw gan Gyngor Pentir. Diolch yn fawr iawn i'r rhai sydd yn gwneud ac ariannu y gwaith.

MODURDY FFRYDLAS

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Dyweddio
Llongyfarchiadau i Gwenno Kervegant, Tan Dderwen, merch Ffion a Dominic, ar ei dyweddïad diweddar i Alex. Pob dymuniad da i chi eich dau.

Pob lwc
Dymuniadau da i Aziliz Kervegant, Tan Dderwen, sydd newydd gychwyn ar ei chwrs coleg mewn Eidaleg ym Mhrifysgol Caeredin, yn yr Alban.

Profedigaeth
Bu farw Betty Jones, 53 Bro Syr Ifor, yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi y 22^{ain} yn 80 oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Gwynfryn ac yn Fam i Wendy, Alun a Dylan, yn Nain i Stuart, Catherine, Lisa, Penny, Osian a Llion, yn hen Nain ac yn chwaer i Pauline. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref y 5^{ed}. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu.

Daeth profedigaeth i deulu Tansgrafell yn ddiweddar. Collodd Gwen gefnder a chyfnither a brawychwyd y teulu pan fu farw Fiona, merch i frawd John yn Swydd Amwythig. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu a phob iechyd a bendith i chi eich dau.

Capel Shiloh Newydd
Oes mae gan Capel Shiloh enw newydd sef Shiloh Newydd! Dydd Llun, Medi 26^{ain}, yn dilyn cyfarfod yn y capel unwyd Capel Pisgah, Rhiwlas mewn enw gyda Capel Shiloh i greu Capel newydd, sef Shiloh Newydd. Bydd aelodau Pisgah yn parhau i gyfarfod yn Neuadd y pentref Rhiwlas ond yn ymuno gyda Shiloh hefyd mewn rhai gwasanaethau.

Ysgrifennydd y Shiloh Newydd ydi Gwenda Davies, Hefin Williams yw y Trysorydd ac Einir Wyn Williams yn Swyddog Diogelu.

Mae gan y capel Weinidog newydd sef Y Parchedig Ddoctor Ian Morris, Pontarddulais, a braf iawn oedd ei gyfarfod mewn Noson groeso yn Shiloh ar Fedi y 1st.

Diolchwyd yn arbennig i Eurwen Williams, Tyddyn Dicwm sydd wedi bod yn Drysorydd yn Shiloh am yn agos i ddeugain mlynedd gan wneud y gwaith yn drylwyr a gweithgar. Diolch Eurwen.

Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Hydref 23^{ain} – Geraint Roberts, Llandegfan
Hydref 30^{ain} – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Tachwedd 6^{ed} – Ellie Jones, Coed y Parc
Tachwedd 13^{ain} – Jennie Hurd
Tachwedd 20^{fed} – Eufryn Davies, Llandegfan
Tachwedd 27^{ain} – Olaf Davies, Llandegfan

Mae Noreen Jones, un o aelodau'r capel yn parhau mewn ysbyty ac anfonwn ein cofion hefyd at Wynn Williams, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar.

Eglwys St. Mair, Gelli
Gwasanaethau ar dydd Sul 1^{af} a'r 3^{ydd} o bob mis am 9.30yb.

Bedydd
Diwedd mis Awst croesawyd Nansi a Loti, dwy ferch fach Dion a Zoe i'r eglwys ble cawsant eu bedyddio.

Hefyd ym mis Medi cafodd Jenkyn, mab Sarah ei fedyddio. Croeso iddynt i gyd i deulu'r eglwys.

Te Bach
Cawsom Te Bach llwyddiannus iawn ym mis Awst, a'r elw yn mynd i Ymchwil Cancr y Fron. Mae Te Bach nesaf ni ar dydd Mawrth Tachwedd 22ain am 1yp. Diolch i bawb sydd yn ein cefnogi.

Mewn Ysbytai a Chartrefi Gofal

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn teimlo yn rhy dda ar gychwyn tymor yr Hydref.

Mae rhai ohonoch adref yn eich cartrefi ac yn derbyn gofal gan deulu a gofawyr. Diolch i chi sydd yn edrych ar ôl y cleifion ar adeg mor anodd a phrysur i bawb.

Gwyddom am eraill sydd mewn ysbytai ar hyn o bryd a'n gobaith yw y byddwch yn gwella yn fuan ac yn cael dychwelyd adref i'ch cartrefi.

Anfonwn ein cofion at y rhai eraill o'r pentref sydd yn derbyn triniaeth mewn ysbytai lleol a thros y ffin yn Lloegr.

Cofiwn am y rhai o'r ardal sydd mewn Cartrefi Gofal. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Glenys Clarke, Brenda Wyn Jones, Eleanor Holland, Iola Griffiths ac eraill. Cofiwch adael i ni wybod os oes rhai o drigolion o'r pentref yn wael.

Merched y Wawr
Daeth yn amser i gychwyn tymor newydd o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr, Nos Lun, Medi 5^{ed}, yn Festri Capel Shiloh dan ofal y llywydd Carol Jones. Croesawodd Carol bawb yn ôl wedi seibiant yr Haf a braf oedd cael croesawu aelod newydd a dychweliad cyn-aelodau oedd wedi methu bod yn bresennol cyn a wedi cyfnod y Cofid.
Diolchwyd i Myfanwy am baratoi y rhaglen ar gyfer y flwyddyn a chafwyd ymddiheuriadau gan Carys O' Connor, Rhian, Jan, Mary, Mona, Ann, Luned a Beryl.
Llongyfarchwyd Olwen ar briodas ei merch Ffion Mair.
Llongyfarchwyd plant ac ieuenctid yr ardal am eu llwyddiant mewn gwaith, colegau ac ysgolion.
Daeth manylion o'r swyddfa yn Aberystwyth am greu cerdyn a phenillion

Rhwydwaith y Gymuned Ffermio, FCN Cymru

Mae Rhwydwaith y Gymuned Ffermio neu FCN Cymru yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr a'i teuluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl. Bellach mae tîm o weithwyr achos profiadol Cymraeg ar gael i gynorthwyo ffermwyr a'i teuluoedd yn yr amseroedd anodd ac ansicr yma. Bydd y gweithwyr yma yn cynnig cymorth a chyd-gerdded gydag unrhyw un sydd yn chwilio am

gymorth a cefnogaeth. Ond tydi hyn yn da i ddim onibai fod pobol yn gwybod am y mudiad a sut y gall fod o gymorth iddyn nhw neu eu cydnabod. Yn ddiweddar penodwyd Fiona Gordon yn swyddog cefnogol i'r FCN yma yng Ngogledd Cymru.

Magwyd Fiona ar fferm odro ger Rhydyclafdy, ac wedi gorffen yn y coleg treuliodd amser yn teithio'r byd. Wedi dod adra cafodd swydd gydq Wynnstay Farmers yn Rhosfawr Pwllheli,

Ile bu'n gweithio am dros 12 mlynedd.

Mae Fiona wedi ymgartrefu ar fferm ger Llanaelhaearn gyda'i phartner Carwyn a'u merch Cadi Grug. Dywedodd fel gwraig fferm ifanc, ei bod yn "llawn sylweddoli'r angen am gefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd yn y blynyddoedd nesaf" ychwanegodd ei bod yn "edrych ymlaen i hyrwyddo yr elusen fel bod pawb yn gallu manteisio arni."

Y cyfan sydd angen wneud ydi ffonio 03000 111999 unrhyw dro rhwng 7yb ac 11yh ac fe gewch wasanaeth cyfangwbl gyfrinachol a phersonnol. Gallwch hefyd ymweld a fcn.org.uk/?lang=cy neu www.farmwell.cymru am fwy o wybodaeth.

Bydd Fiona yn barod iawn i gyfarfod a cymdeithasau a mudiadau cefngwlad i egluro gwaith FCN Cymru. Gallwch gysylltu a hi trwy ebostio fionagordon.fcn@gmail.com

ar gyfer cerdyn 'Dolig 2023 ac am y cystadlaethau yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd ym Mis Tachwedd.

Braf iawn oedd cael cwmni Ann Trefor Davies, Tal y Cae, i siarad am gychwyn y gangen yn Tregarth ym Mis Tachwedd 1969, sef 53 o flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd Ann yn un o sylfaenwyr y gangen ynghyd â Glesni Jones, oedd yn byw yn Dob ar y pryd, a Carys O' Connor, oedd yn enedigol o'r pentref ac yn adnabod y trigolion. Mae dwy o'r aelodau presennol yn aelodau o'r cychwyn sef Alwena Puw ac Anghard Hughes.

Y tâl aelodaeth oedd 5 swllt ac erbyn hyn mae yn £18 am y flwyddyn!

Glesni oedd y Llywydd cyntaf, Carys yn Ysgrifennydd, Katie Jeffries yn Drysorydd ac Ann a Mrs Wilson yn ohebwy'r wasg. Dyddiau difyr iawn.

Cafodd y Gangen gryn lwyddiant ar hyd y blynyddoedd gyda'r parti adrodd yng ngofal Rhiannon Alun Evans.

Noson ddifyr, hwyliog a llawn chwerthin gafwyd yng nghwmni Ann a diolchwyd iddi gan Carol ac Alwena.

Mwynhawyd lluniaeth ysgafn a baratowyd gan rai o'r aelodau a daeth manylion am y cyfarfod nesaf fydd yn cael ei gynnal Nos Lun, Hydref 3^{ydd} am 7.30 yn Ffestri Shiloh pan ddaw Alwyn Jones i son am ei waith gyda'r Ambiwylans Awyr. Croeso cynnes iawn i bawb hoffai ymuno gyda'r gangen.

Hwb gan gwmni Welsh Slate i'r Clwb Rygbi

Mae canolfan sy'n graidd i'r gymuned, ble mae prif chwarel Welsh Slate wedi'i w leoli, yn ddiweddar wedi derbyn hwb sylweddol gan y gwneuthurwr cynhyrchion llechi naturiol blaenllaw.

Datangwyd mai cwmni Welsh Slate, a'i brif safle yn Chwarel y Penrhyn, fydd noddwr clwb newydd trawiadol Tîm Rygbi Bethesda am y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r Clwb, a'r pum hectar o dir lle lleolir y cyfleusterau, yn graidd i'r gymuned leol. Mae dros 20 o grwpiau cymunedol a 2,000 o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau, a phum busnes bach yn gweithredu o'r safle newydd.

Sefydlwyd Clwb Rygbi Bethesda yn wreiddiol yn ystod y 1970au, a'n bresennol mae ganddynt dau dîm hîn, gyda'r tîm cyntaf yn cystadlu yn Adran 1^{af} Cyngreiria Cenedlaethol Cymru,



cystadleuaethau Plât Cymru a Chwpan Gogledd Cymru. Yn ogystal â'i charfan iau gweithgar a llwyddianus o dan 6 hyd at 18.

Gall y clwb ddarparu at hyd at 300 o bobl, gyda chegin fawr, fodern sydd wedi sicrhau ei le fel lleoliad poblogaidd ar gyfer priodasau, partïon, angladdau a digwyddiadau cymdeithasol eraill. Yn ogystal, mae Cyfleusterau cyfrifiadurol llawn gan cynnwys pum sgrin deledu fawr sydd hefyd yn ei wneud yn leoliad addas ar gyfer digwyddiadau busnes a hyfforddiant.

Yn ogystal â'r rygbi, defnyddir y clwb am amryw o chwaraeon eraill megis Pêl-Droed, Saethyddiaeth a Cyclo-cross, a chynlluniau ar y gweill ar gyfer grŵp Thrac a Maes.

Ceir hefyd defnydd o'r cyfleusterau gan Ysgol Uwchradd y pentref a'r ddwy Ysgol Gynradd ar gyfer chwaraeon, yn ogystal â'r Gŵyliau, Grwpiau Ffocws, Sgowtiaid, Afancod a'r Cybiau, y Ffermwyr Ifanc a Chadetiaid y Fyddin.

Dywedodd Cyfarwyddwr Rygbi'r clwb, Will Sandison: "Rydym yn ddiolchgar iawn i Welsh Slate am eu cefnogaeth hael, heb hynny byddem yn ei chael yn anodd darparu cyfleusterau mor gynhwysfawr ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr."

PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Cyfarfu cangen Dyffryn Ogwen yn rhithiol ddiwedd Medi, a braf oedd cael sgwrs eto ar ôl egwyl yr haf.

Trafodwyd sawl mater gwleidyddol o bwys, a diolch i'r rhai a fynychodd am gyfrannu.

Rhododd y Cyngorydd Paul Rawlinson adroddiad difyr o'r gwaith gwleidyddol yn Nghyngor Gwynedd. Roedd yn siom fawr clywed fod Cyngorwyr wedi teimlo dan fygythiad yn ystod cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ddiwedd Awst, pan fu trafod Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasedd newydd sydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Clywsom fod rhai cyngorwyr wedi profi bygythiadau ers y cyfarfod hefyd. Credwn y dylai aelodau etholedig allu ymgymryd â'u gwaith yn saff ac heb fygythiad, ac rydym yn cyd-sefyll a'r rhai sydd wedi profi'r sefyllfa annerbyniol yma.

Hoffwn hefyd fel cangen nodi ein siom gyda'r llywodraeth newydd yn San Steffan, a'u cyllideb sydd yn cefnogi'r cyfaethogion ar draul trigolion cyffredin. Mae hyn yn wrthun llwyr i'n credoa ni, ac rydym yn ei gondemio'n llwyr.

Ar fater lleol, cafwyd trafodaeth am y gwasanaethau bws sydd yn cael eu darparu gan Arriva yn yr ardal. Tra fod problemau wedi bod ers blynyddoedd, rydym ar ddallt fod dirywiad sylweddol wedi bod yn y gwasanaeth yma dros y misoedd diwethaf, yn enwedig ar amseroedd teithio prysur. Tydy hyn ddim yn dderbyniol. Rydym yn credu y dylai gwasanaeth cludiant cyhoeddus fod yn ddibynadwy, ac y byddai rhwydwaith cludiant cyhoeddus effeithiol o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Rydym felly wedi cytuno i ysgrifennu at Arriva, fel cangen, i fynegi pryderon am safon gwasanaeth ac i ofyn i fwy o fysiau gael eu darparu yn ystod cyfnodau prysur.

Gyda'r Hydref yn dod, rydym yn wynebu ansicrwydd o ran sefyllfa COVID, ond rydym yn mawr obeithio fod y gwaethaf o'r pandemig y tu ôl i ni bellach, ac am geisio cychwyn cwrdd wyneb yn wyneb eto. Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghefnfaes, nos Fercher 26^{ain} Hydref, yn ôl yr arfer, ac mi fyddwn yn estyn gwahoddiad i aelodau i ymuno â ni am ein sgwrs wleidyddol ddifyr nesaf!

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

Carlwm a Bronwen – dau heliwr ffyrnig

Creaduriaid go debyg mewn sawl ffordd ydi carlwm a bronwen. Ia, toriad o'r un brethyn ydi'r ddau anifail ysglyfaethus hyn. Mae'r ddwy rywogaeth yn perthyn i deulu'r mustelidae sy'n cynnwys ffwlbart, bela'r coed, minc, dwrgi, ffured a mochyn daear.



Carlwm

Y carlwm (*Mustela erminea*; stoat) ydi'r mwyaf o'r ddau. Ei hyd ydi rhwng 30-40 cm. Mae ganddo gorff hir a main, efo coesau byr. Gall ei liw fod yn frown golau, yn winau neu'n gringoch. Gwyn-hufen ydi lliw rhannau isaf ei gorff, o'r gwddw i'r bol.

Du ydi blaen ei gynffon wrychog, ac yn ôl naturiaethwyr diben y blaen du ydi tynnu sylw adar ysglyfaethus fel eu bod yn cael eu denu i ymosod ar y gynffon yn hytrach nag ar rannau mwy bregus o'i gorff. Pe bai aderyn yn cydio ym mlaen ei gynffon, byddai ganddo fwy o obaith i ymryddhau o'r crafangau a dianc.

Heliwr ydi'r carlwm, ac yn ystod y nos y bydd yn chwilio am ei ysglyfaeth ran amlaf. Mae o'n greadur chwim iawn, a ffyrnig, ac i ddal llygod ac adar mi fedr fynd i lawr tyllau ac i fyny coed yn hynod ddeheuig. Fodd bynnag, ei hoff ysglyfaeth ydi cwningen, sy'n medru bod bedair gwaith yn fwy o faint na fo'i hun. Ar ôl rhedeg ar ôl cwningen a'i dal bydd yn gorwedd ar ei chefn a'i lladd drwy ei brathu yn ei gwegil ym môn ei phenglog.

Bydd carlwm sydd â'i gynefin yn yr ucheldir yn troi'n wyn i gyd yn y gaeaf, - yn guddliw rhag llwynog a bwncath – a hynny roddodd inni'r gymhariaeth 'mor wyn â'r carlwm'.



Bronwen

Mae bronwen (*Mustela nivalis*; weasel) yn llai na charlwm. Ei hyd ydi 20-27 cm, ac mae ei chynffon yn fyrrach nag un carlwm o gryn dipyn. Mae ei ffwr o'r un lliwiau â ffwr y carlwm, ond does gan fronwen ddim du ar flaen ei gynffon. Gwahaniaeth arall ydi bod

cefn carlwm yn mynd i fyny ac i lawr wrth iddo symud, a chorff bronwen yn aros yn gyson isel ac agos i'r ddaear. Mae bronwen cystal heliwr â'r carlwm, ac mae'n rhyfeddod ei fod o'n medru llusgo cwningen ar ôl ei lladd. Rhoddodd y fronwen hefyd gymhariaeth inni. Pan fo cwpanaid o de'n wan, mi ddywedwn ei fod y te 'mor wan â phiso bronwan'.

Enw arall ar fronwen ydi gwenci, a dyma'r enw a ddefnyddiodd y bardd R. Williams Parry yn deitl i un o'i gerddi. Dywedir bod y bardd wedi llunio'r soned ar ôl bod yn dyst i ddigwyddiad pan oedd yn mynd am dro yng nghyffiniau Pant-y-Cyff rhwng y Felin Hen a Phentir. Tybiodd ei fod yn gweld cwningen yn rhedeg ras efo'i chyw yn y ffridd, ond sylweddolodd mai bronwen oedd y 'bychan' yn y ras:

"Pwy gura os gwn-i?" Y bychan oedd yn ben, Y sugnwr sydyn yn y wasgod wen.

Weithiau ceir cip ar garlwm neu fronwen yn gwibio ar draws llwybr neu lôn ac yn diflannu i grombil wal gerrig neu i wrych. Yn ddiweddar, gwelwyd carlwm yn rhedeg am gryn bellter ar hyd ben wal Ffordd Lord wrth ymyl Tai Newyddion yn Nant Ffrancon.

.....

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG i^{euanywn01@gmail.com} 01248 600297.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

 01286 672076

 70 Stryd Fawr, Bangor

 hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

26 LLAIS OGWAN

CHWILAIR



Cymysgedd

A	C	H	W	A	R	E	L	G	O	C	H	A	W	F	H	R	P	I	E
H	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	E	I
A	M	G	V	H	S	Y	C	H	N	A	N	T	M	D	W	H	N	U	Z
L	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	I	R	P
F	Y	Q	Z	G	R	T	Y	D	D	Y	N	I	S	A	F	G	E	H	C
W	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	L	L	X	U
A	P	W	R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	A	E	O	M
Y	H	S	E	P	T	T	C	O	B	B	N	C	U	U	J	N	P	L	T
H	S	M	M	I	V	V	D	C	R	N	B	B	F	R	F	R	O	G	J
O	V	A	I	R	I	R	R	X	I	M	I	M	H	T	T	A	O	S	K
U	O	P	L	W	A	R	C	T	M	K	Y	C	B	O	R	F	C	X	V
S	R	Y	H	G	S	R	R	T	M	R	E	G	F	Y	J	O	D	Z	H
E	B	C	W	O	T	E	O	S	C	R	A	I	N	X	N	N	I	L	X
J	J	M	B	W	B	N	T	M	E	X	M	D	X	A	K	F	U	P	C
Q	Y	O	I	L	L	F	A	E	T	R	Z	Q	R	O	F	C	T	D	G
W	S	L	A	Z	E	B	E	P	H	E	N	B	A	R	C	I	A	J	K
J	C	L	N	L	R	V	O	G	J	P	O	W	P	G	S	O	E	W	J
N	A	N	T	Y	B	E	N	G	O	L	G	C	J	Q	U	L	F	A	S
V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	C
K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S	I	U

Yn y Chwilair mis yma mae CYMYSGEDD o DESTUNAU i chwi eu darganfod. ENWAU 3 CAPEL, 3 FFERM, 3 TAFARN a 3 STRYD. Maent i gyd i'w darganfod yn ardal Dyffryn Ogwen. Nid wyf wedi rhoi clw ar gyfer y Chwilair y mis yma gan fod amrywiaeth yn yr atebion. A oes modd i chwi ddod o hyd iddynt? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28 Hydref . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Dyma atebion Chwilair Medi:
Berw'r Dwr, Blodyn y Fagwyr, Blodyn y Gwynt, Carpiog y Gors, Celyn y Môr, Cenhinen Bedr, Clyst yr Oen, Clychau'r Gog, Collen, Eirlys, Gwlydd Melyn Mair, Lili'r Wyddfa.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.
Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Eirwen Owen, Erw Las; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Elin Williams,

Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Bowen, Gerlan; Colin G. Davies, Blaenau Ffestiniog; Gwen Davies, Bethesda; Carys Parry, Glanogwen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan;

Enillydd Medi oedd: Barbara Anne Conlan, 53 Glanogwen, Bethesda, Gwynedd. LL57 3PG

gan Mary Jones

Diolch i lawer ohonoch chi ddarllenwyr sy'n dweud wrthyf eich bod yn cael blas ar y golofn, ac yn mynd ymlaen wedyn i gofio ambell i air a minnau'n ceisio 'ngorau i'w cofnodi ar unrhyw beth o fewn gafael. Dyna sut y bu Gwenda Davies, gynt o Dregarth, ddweud wrthyf fel y byddai'n dotio at ei diweddar wr yn dweud Cwilym, a hithau'n dweud "ond Gwilym ydio, Glyn".

Ond dyna ddywedwn 'yn' am 'ynte', yn enwedig wrth ei dalfyrri i Cwil. Fel y byddai fy nhad yn mynnu gwrthio 'd' i mewn i ddweud enw Standley.

Cefais sgwrs ffôn ddifyr efo Gareth Jones, Pant Glas ac fel y cofiai ymadrodd a ddywedai ei dad wrth blanu pys a ffa:

"Os y don nhw, ddon nhw ddim,
Ond os na ddon nhw, mi ddon."

Cyfeirio oedd o wrth gwrs at y brain. Petai'r brain yn dod fyddai'r pys ddim, petaent yn cadw draw yna byddai siawns am gnwd go dda.

Cyfeiriodd hefyd at berson efo wyneb 'fath a llefrith 'di suro', rywun yn 'sbïo fel twrc' a rhywun arall yn 'dena' fel cria' sgidia'. Mae rhain i gyd yn creu darluniau byw ac wrth gwrs yn gymhariaethau. Rwyf yn siwr bod llawer mwy ar gael yn yr ardal, ac efallai rhai yn ymwneud â'r chwarel i ddisgrifio ambell un.

Ambell air a'u hystyron

Feis

Mae gen i gof o mam yn galw tap dŵr yn feis. Byddai yn dweud os y byddwn yn gollwng afal ar lawr am ei roi o dan y feis ac y byddai yn iawn wedyn. Byddai tap tu allan i'r tŷ hefyd yn amlach na pheidio yn cael ei alw yn feis.

Tê Tramp

Tybed ydy'r rhan fwyaf ohonom bellach yn gwneud tê tramp gan hepgor y tebot, a hynny wrth gwrs oherwydd bod y rhelyw ohonom yn defnyddio bagiau tê. Ers talwm byddai tê tramp yn golygu rhoi dail tê yn

syth yn y gwpan a thywallt dŵr berwedig ar ei ben gan ei droi drwy'r amser nes bod y dail tê yn aros yng ngwaelod y gwpan. Cofiaf i Dr. John Elwyn Hughes ddweud wrthym ers talwm fel y byddai hogia'r chwarael yn galw tê efo dail yn nofio ar y wyneb yn **dê loeswr**. Prentis oedd loswr ac nid oedd ganddo'r amser i aros i'r dŵr ferwi yn iawn ac felly ni fyddai'r dail yn setlo ar waelod y gwpan.

Sydyn a chyflym

Mae gennon ni nifer dda o ffyrdd i ddisgrifio rhywun neu rywbeth sydd yn symud yn sydyn. Dyma i chi rai ohonyn nhw: mynd ar wîb; mynd ar ras wyllt; mynd fel fflamia'; fel cath i gythraul; fel y gwynt; fel bom; fel roced; fel trê; fel melltan; fel siot; fel wipéd (math

o gi tebyg i filgi, ond ei fod yn llai o faint). A bydd stori flasus yn mynd o gwmpas yr ardal 'fel tân gwyllt'.

Pan fydd rhywun wedi gorfod mynd ar wîb o rywle – yn dianc – mi ddywedwn ei fod o neu hi wedi '**ei g'luo hi**' (ei goleuo hi). Mae'r dywediad yn cyfateb i 'ei heglu hi'.

Araf, trwsogl neu flêr

'Fel hers' meddan ni am rywbeth neu rywun yn symud yn araf, ac 'fel malwan' – gan ddweud 'fel malwan mewn côl-tar' os bydd yr arafwch y tu hwnt! Os bydd rhywun yn ddi-sut – yn ddi-glem dywedir ei fod o neu hi 'fel brechdan', a ffyrdd mwy angharedig i ddisgrifio un o'r fath ydi dweud ei fod o neu hi fel llo; fel llo gwlyb; fel llo cors; fel llo llywath; fel llwdwn llo. Druan o'r llo yn cael y fath enw drwg! Mwy angharedig fyth ydi dweud fod rhywun 'fel rhech' ac yn waeth byth 'fel rhech wlyb'! Hefyd mae 'fel brych' yn ddywediad.

Pan fydd rhywun yn oedi'n ddi-amcan, dywedir ei fod yn 'tin-droi', yn 'stwna', 'yn sefyllian', 'yn gogor-droi' (gogor wrth gwrs ydi'r teclyn a ddefnyddiwn i wahanu pridd a cherrig wrth arddio). Un arall ydi 'stelcian', ac mi ddefnyddiodd Caradog Prichard y gair mewn cerdd i ddisgrifio Afon Ogwen; 'Caf stelcian ennys wrth Bont y Tŵr Yn llyn bach diog wrth Bont y Tŵr'.

Iaith Pesda

Morio

A dyma ni wedi dod unwaith eto at y morio a chaf y pleser o rannu rhan o eirfa'r grefft, gyda diolch i Gwyn Jones;

Cawio: Y broses o glymu defnydd ar fachyn i greu pluen sy'n cynrhychioli pryfetach.

Cwyr Crydd: Cwyr du a oedd i'w gael o weithdy'r crydd. Byddai'n cael ei ddefnyddio helpu'r edau afael ar y bach wrth gawio.

Plu Tro: Plu eithaf syml heb adain, gyda dim ond pluen gwddw aderyn wedi ei throï o amgylch y bach i gynrhychioli traed y pryf. Plu Afon Gaseg a Llafar yn bennaf.

Cipar: Y ring sydd ar flaen eithaf yr enwair.

Pwtch: Waled ledr gyda tudalennau o ddefnydd i gadw'r plu a'r blaen llinyn yn saff.

A'r tywydd i'r pysgotwyr cyn cloi;

Gwynt Capel Curig: Gwynt cyson o gyfeiriad Capel Curig sy'n chwythu o Fferm Tal y Llyn i lawr i ben Llyn Ogwen.

Gwynt Dan y Gynffon: Gwynt sy'n chwythu i fyny yr afon o gynffon y pwll.

Gwynt Traed y Meirw: Gwynt o'r dwyrain.

Ceffylau Gwynion: Stremps hir o ddwr gwyn byrlymus ar hyd wyneb y llyn yn ystod gwyntoedd cryf.

Gwreichion yr Haul: Fflachiadau sydd i'w gweld ar wyneb y llyn wrth i'r haul daro ar y tonnau.

Crych: Y dŵr gwyn byrlymus sy'n rhedeg i lawr pylau'r afon.

Cofiwch gysylltu os oes ganddoch enghreifftiau: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN Ffôn: 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffôn i'w ch: 07796 038824

PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd na gweithgareddau yn ystod cyfnod galaru'r frenhines ond mi gynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon, gan drafod y canghennau, yr undebau, cyllid (a oedd yn iach), newidiadau i ffiniau etholaethau Prydain, rhaglen y cyfarfodydd, streiciau'r undebau a.y.y.b

Yn ddiweddar, cynhaliwyd taith nodedig flynyddol y gangen ar hyd y llwybr arferol, gyda chwniaeth dda a phanad yn y caffi. Bydd rhai'n mynd ar ddyddiad gwahanol am nad oeddent ar gael.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com
Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY.
(01248 601526)

Cydymdeimlo

Tristwch mawr oedd y newyddion am farwolaeth Eirlys Wyn Watts (nee Parry) a oedd yn byw yng Nghiltwillan, Gerlan gyda John ei gŵr.

Ganwyd Eirlys yn 1941 yn Ffordd y Mynydd (Mountain Road), Rachub. Bu'n ddisgybl yn yr ysgolion lleol a graddiodd ym Mhrifysgol Bangor.

Bu'n dysgu yng Nghymru am sbel ac fe barahodd gyda'i gyrfaf fel athrawes yn Lloegr. Yn dilyn ei phriodas bu'n byw mewn amryw o leoliadau gyda'i gŵr John a'i thri plentyn, Mark, Tegwen a Bryn.

Bu farw Eirlys yn yr ystyby ar y 10fed o Orffennaf, wedi cymhlethdodau yn ymwneud â'r Covid a chynhaliwyd ei chynhebrwng ar y 21ain o Orffennaf yn Amlwgfa Bangor. Bydd ei llwch yn cael ei wasgaru ar y mynydd uwchben Ciltwillan.

Mi fydd ei gŵr John a'i phlant yn ei cholli'n fawr iawn. Rydym ninnau yn y Gerlan yn estyn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu colled fawr.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i lanto Shae ac Autmn Schmitz ar eu priodas. Mae lanto wedi ei eni a'i fagu'n Gerlan a bydd nifer ohonoch yn ei adnabod o'i swydd ym Mhartneriaeth Ogwen.

Mae Autumn yn dod o Alberta

yng Nghanada ac fe gynhaliwyd y briodas yno yn gynharach ym mis Medi. Bu rhieni lanto, Hannah a Jez, yn ffodus iawn i allu teithio yno efo Cai, brawd lanto, er mwyn dathlu'r achlysur hynod arbennig yma. Da ni'n dymuno'r gorau i'r ddau ohonoch yn eich bywyd newydd.

Pen-blwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn i Gwen Pritchard, Parc, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn 60. Gobeithio bod chdi wedi cael amser da yn nodi'r achlysur arbennig yma, Gwen, a dy fod wedi dy sbwylio gan dy deulu a dy ffrindiau.

Croeso Adref

Croeso adref i Cai O'Marah o Gwernydd sydd wedi bod yn teithio yn America, Mexico, Canolbarth America, Canada a mwy! Edrychwn ymlaen i glywed dy hanesion Cai a da ni'n falch o dy gael di adref yn ddiogel.

Babi newydd

Llongyfarchiadau mawr i Ben a Megan Eldon, Ffordd Gerlan ar enedigaeth eu mab bach, Tudur Meic. Mae'n hyfryd gweld babis bach newydd yn cael eu magu yma a da ni'n edrych ymlaen at ei gyfarfod wrth i chi fynd am dro o gwmpas y pentref.



Ceisiadau am Nawdd Ariannol

HYSBYSIAD PWYSIG

Mae **Cyngor Cymuned Llandygai** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau Lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd erbyn 31 Rhagfyr 2021

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

HYSBYSIAD PWYSIG

Mae **Cyngor Cymuned Bethesda** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau Lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc erbyn 31 Rhagfyr 2022

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

HYSBYSIAD PWYSIG

Mae **Cyngor Cymuned Llanllechid** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau Lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2022

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Caroline Jones,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

GORTHRYMU'R TLAWD

Am un eiliad fer, mi ddechreuais feddwl am y dyddiau da pan oedd Mr. Johnson wrth y llyw. Ers talwm, mor braf oedd hi arnom â gŵr mor abl a dibynadwy'n dal yr awenau. Amser maith yn ôl, mor ddedwydd ein byd cyn dyddiau llywodraeth beryglus Ms. Truss. Dim ond am eiliad cofiwch; ychydig eiliadau'n llai nag a gymerodd y Prif Weinidog newydd a'i Changhellor Kwasi Kwarteng i wneud llanast llwyr o bethau.

Cythraddwyd miliynau o bobl gan y penderfyniad i roi gostyngiad treth sylweddol i'r bobl gyfoethocaf trwy ddileu'r band treth uchaf o 45%. Bu raid i Ms. Truss a Mr. Kwarteng roi heibio'r bwriad am fod rhai o aelodau seneddol eu plaid yn amharod i'w cefnogi. Ac felly, ar hyn o bryd o leiaf ni chaiff y sawl sy'n ennill mwy na £150,000 y flwyddyn y gostyngiad treth o 5% y bwriadwyd ei roi iddynt. Chollwn ni ddim gormod o gwsgr drostynt: mi gânt ostyngiad o 1% fel pawb arall sy'n talu treth incwm. Roedd Ms. Truss yn ddigywilydd ei bwriad i

wneud y cyfoethogion yn gyfoethocach fyth. Ac er iddi gael ei gorfodi i gadw'r band treth o 45%, mae'n ddigon digywilydd a gonest i ddweud y bydd yn ei ddileu yn nes ymlaen. Ond mwy fyth o bryder yw'r hyn a ddywed am bensiynau a budd-daliadau. Mae'n addo'n bendant y bydd yn anrhydeddu'r 'Clo Triphlyg' o ran pensiynau, sy'n golygu codiad o 10% i'r Pensiwn Gwladol y flwyddyn nesaf, ond yn gwrthod yn lân ag addo yr anrhyddeddir addewid blaenorol y Llywodraeth i gynyddu budd-daliadau o 10% yn unol â chwyddiant.

Mae'r addewid ynghylch pensiynau i'w groesawu wrth gwrs. Ond gallwch fentro nad haelioni at bensiynwyr tlawd sydd y tu cefn i'r addewid ond y ffaith fod canran sylweddol o aelodau'r Blaid Geidwadol yn bensiynwyr. Gwelir gwir liwiau'r Prif Weinidog yn ei hamharodrwydd i roi addewid tebyg ynghylch budd-daliadau. Go brin fod llawer o aelodau ei phlaid yn dibynnu ar fudd-daliadau; ac felly does dim rhaid iddi boeni'n ormodol amdanynt. Mae'n deg canmol y Llywodraeth am bob

cymorth a roddwyd yn yr argyfwng ariannol presennol. Ond mae yna rywbeth sylfaenol greulon ac anghyfiawn ynghylch gwrthodiad Ms Truss i ymrwymo i gynyddu budd-daliadau i bobl dlotaf ein cymdeithas. Wrth reswm, mae gwir angen y cynnydd ar filoedd ar filoedd o bensiynwyr, ond y mae gwir angen amdano hefyd ar filoedd o bobl sydd am wahanol resymau'n dibynnu ar fudd-daliadau.

Mae gan y Beibl lawer i'w ddweud am ein cyfrifoldeb i ofalu am dlodion, a chawn ein herio trwyddo i ystyried y ffyrdd y medrwn ni helpu eraill, ymhell ac agos. Mae geiriau fel y ddwy adnod isod o Lyfr Diarhebion yn sicr yn gwneud hynny. Gweddiwn am y gras i ymateb yn drugarog i anghenion pobl eraill.

'Y sawl sy'n gorthrymu'r tlawd i geisio elw iddo'i hun, ac yn rhoi i'r cyfoethog, bydd hwnnw'n diweddu mewn angen' (Diarhebion 22:16).

'Y mae'r cyfiawn yn gwybod hawliau'r tlodion, ond nid yw'r drygionus yn ystyried deall' (Diarhebion 29:7).

Calendr Llais Ogwan 2023

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2023 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Richard Alwyn Jones a Gwasg Ffrancon am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk. Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Marchnad Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am £1.10 yn ychwanegol. Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 post@llaisogwan.com



Calendr 2023 Llais Ogwan
Papur Bro Dyffryn Ogwen

Carneddi

Colled

Ar Fedi y 1^{af} 2022, bu farw Brian Wyn Parry yn dawel yng nghwmni cariadus ei deulu a'i bartner Diana yn ei gartref, 5 Brynteg. Roedd yn 80 mlwydd oed. Priod cariadus y ddiweddar Margaret, tad arbennig Helen, Naomi, David a'r diweddar Gareth, taid hoffus i'w holl wyrion a'i wyresau, brawd annwyl Pat. Roedd Brian yn gymeriad hoffus a phoblogaidd iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i holl deulu a ffrindiau.

Braichmelyn

Gair o ddiolch

Dymuna Mrs. Gwyneth Parry, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed ar 19^{eg} o Fedi.

Chwaraeon

Golf

Dyma dri o "Hogia'r" Dyffryn sydd yn mwynhau gêm o golff ar gwrs Sant Deiniol pob ddydd Mawrth a ddydd Iau, yn ogystal â chwarae cyrsiau ar draws Ynys Môn a Gwynedd gyfan.

Dim byd yn anghyffredin yn hynny meddech chwi ar wahân i'r ffaith fod y tri heini yma oll yn eu 80au!!!

Mae'r tri, yn ogystal a rhyw 20 arall, yn cyfarfod yn wythnosol i chwarae cystadleuaethau a chael digon o hwyl yn tynnu coes hwn a llall.

Diwrnod o'r blaen daeth enwau'r tri i fyny i chwarae gyda'i gilydd. Er nad oedd eu sgôr yn dilyn y gem ddigon i fynd â'r wobwr, roedd cyfanswm oedran y tim yn 248!

Go dda "hogia" Daliwch ati i fwynhau a chadw'n iach.



Gareth Jones, Cyril Morris a Rhys Llwyd yn ymlacio wedi'w gêm

Cynnyrch lleol ar gael wedi ei ddanfoni i'ch cartref neu i'w gasglu.

Ffordd gyfleus o brynu cynnyrch lleol o safon...

Os ydych angen cymorth, cysylltwch â Liws Enston ar 07862694163 neu lucinda@ogwen.org



**#CadwynOgwen
#Lleol**

I siopa, ewch i:
www.cadwynogwen.cymru

Eich hwb bwyd lleol

CADWYN



OGWEN

Your local food hub

Cynhyrchwyr:

- Blas Lôn Las
- Cadwyn Ogwen
- Medd Mynydd
- Amser Al
- Inc Pinc
- Cosyn Cymru
- Coffi Derw
- Fferm Pandy
- Madarch Cymru
- Blodeuwedd Botanics
- Tyfu Eryri
- Tyddyn Teg

... a mwyr

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR

SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

JOHN ROBERTS

**Paentiwr
Papurwr
Teilsiw**



**Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995**



BOWLIO (efo Bys a Bawd)

Dyrchafiad Cyflawnodd un o dimau bowlïo Bethesda gamp eleni, gan i dîm Bowlïo Dydd Sadwrn yng nghynghrair Glannau Môr Gogledd Cymru, dan gapteiniaeth Siôn Guto Roberts; lwyddo i gael dyrchafiad i 'Adran A' y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau i Siôn a'i dîm.

Y Tîm Hŷn Daeth Tîm Bowlïo Bethesda, o dan arweiniaeth Maldwyn Pritchard, yn bumed allan o 11 tîm yn y gynghrair i chwaraewyr hŷn, a hynny ar ôl i rai o 'sêr' y tîm fethu chwarae rhai gemau am wahanol resymau.

Captain Brwd Ar Nos Lun yng Nghynghrair Môn a Chylch Bangor daeth y tîm yn drydydd allan o ddeg, dan gapteiniaeth Callum Sorfleet. Mae Callum yn chwaraewr brwd ac yn aelod o sawl tîm ym Methesda.

Y Parau Seithfed allan o ddeg tîm oedd Bethesda yng Nghynghrair parau Môn a Chylch Bangor. Bu Brynmor Jones, y Captain, yn ceisio rhoi gêm i drawstoriad o chwaraewyr o'r profiadol i'r newyddian ac fe gafwyd sawl gêm agos.

Cystadleuaeth Parau Ddiwedd y Tymor i Aelodau



Siôn a Ryan, Pencampwyr y gêm i barau ar lawnt fowlio Bethesda. Sadwrn Medi, 24ain.



Maldwyn a Heddwyn, a ddaeth yn ail i Siôn a Ryan.

Tymor Llwyddiannus i Glwb Criced a Bowlïo Bethesda Cafwyd tair pencampwriaeth i dîmau Bethesda haf yma ar ôl i'r tîm 1^{af} Criced gipio Adran 2 o Gynghrair Criced Gogledd Cymru, bu'r tîm Bowlïo dydd

Sadwrn yn fuddugol yn Adran C: Cynghrair Bowlïo Arfordir Gogledd Cymru ac mi ddaeth tîm Criced Merched Bethesda yn bencampwyr Gogledd Cymru unwaith eto y tymor hwn!

Criced Llwyddodd y tîm 1^{af} Criced i gael dyrchafiad i Adran 1 ar ôl tymor llawn perfformiadau da, gan lwyddo i ennill 20 allan o 22 gem. Sicrhawyd 289 pwynt yn ystod y tymor, un o'r niferoedd uchaf erioed, 330 oedd yr uchafswm o bwytiau oedd ar gael i'w casglu'r tymor hwn. Mae'r tîm yn edrych yn ymlaen i adeiladu ar lwyddiant y tymor hwn wrth ddychwelyd i Adran 1 tymor nesaf.



Rhai o'r aelodau a chwaraeodd i'r tîm Criced 1^{af} y tymor hwn

Roedd perfformiad yr 2^{ail} dîm Criced yn galonogol hefyd, ar ôl llwyddo i gael dyrchafiad tymor diwethaf roedd perfformiadau da iawn mewn Adran uwch y tymor hwn ble gorffennwyd yn 6^{ed} yn y Gynghrair.

Mae Merched Bethesda yn bencampwyr Gogledd Cymru unwaith eto ar ôl amddiffyn y Gynghrair a enillwyd yn ddiguro'r tymor diwethaf. Dim ond dwy gêm a gollwyd mewn Cynghrair yn erbyn tîmau ar draws y Gogledd fel Bae Colwyn, Llanelwain, Conwy a Llandudno. Mae rhai o'r garfan yn rhan o dîm Criced Genethod Ysgol Dyffryn Ogwen a oedd yn llwyddiannus mewn sawl rownd ranbarthol gan ddod yn bencampwyr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.



Rhai o garfan y tîm Criced Merched

Da oedd gweld Criced leuentid yn dychwelyd ar ôl cyfnod Covid, y tymor hwn roedd gan y clwb dîmau dan 13, dan 11 a rhedeg sesiynau hyfforddi 'Dynamos' i oedranau Cynradd. Mae'r clwb yn awyddus i ychwanegu tîm dan 15 i'r Gynghrair y tymor nesaf.

Roedd buddugoliaeth ar ddiwrnod olaf y tymor yn erbyn Benllech yn ddigon i sicrhau fod tîm Bowlïo dydd Sadwrn Bethesda yn curo Adran C ag yn dychwelyd i Adran B o'r Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru. Roedd y tîm yn fuddugol mewn 10 gem allan o 16 y tymor hwn a chipio 120 pwynt yn y proses mewn Cynghrair a oedd yn cynnwys clybiau fel Rhyl, Benllech, Hen Golwyn a Mochdre.

Daeth y tîm Bowlïo nos Lun mor agos at guro'r Gynghrair yn ogystal, gan orffen yn drydydd yn y Gynghrair ar ôl tymor da iawn. Canol y tabl oedd hanes y tîmau prynhawn Mawrth a nos Fercher gyda nifer o berfformiadau da yn ogystal.

Cynhaliwyd y twrnament parau blynyddol ym Methesda ar Wyl y Banc mis Awst, am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn fe enillwyd y twrnament gan bâr o Fethesda - Llongyfarchiadau i Catrin Griffiths a Ryan Short am ennill y twrnament. Ym mis Gorffennaf fe gynrychiolodd Catrin dîm Cymru yn erbyn Swydd Amwythig.



Siôn Guto Roberts y cyflwyno'r wobr i Catrin Griffiths a Ryan Short

Mae'r clwb pob tro yn croesawu chwaraewyr Criced a Bowlïo newydd, noddwyr, aelodau a chefnogwyr yn ogystal ag unrhyw un sydd eisiau gwirfoddoli ar neu oddi ar y cae, gyrrwch neges i'r clwb os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o'r clwb tymor nesaf - unna drwy e-bostio cricedbethesdacricket@outlook.com neu gysylltu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.